



Wedi'i ysgogi gan **gariad**

**Ein Hadroddiad
Blynyddol 2023/24**

*Action for
Children*

**Gweithredu
dros Blant**



Stori Tyler*

Sylwch y gallai cynnwys y stori hon beri gofid.

Dechreuodd Tyler ei fywyd mewn cartref treisgar ac anhrefnus lle cafodd ei gam-drin yn gorfforol ac yn emosiynol gan ei rieni pan oedd yn ifanc. Roedd ef a'i dri brawd a chwaer hŷn yn aml yn cael eu clymu y tu allan i'w drws cefn am 'ymddwyn yn wael' a byddent yn aml yn llwgu.

Pan oedd Tyler yn naw oed, symudodd i un o'n cartrefi ar gyfer plant sydd wedi dioddef trawma yn ystod eu plentyndod. Pan gyrhaeddodd, roedd yn swil ac yn ofnus, ac yn fregus yn emosiynol ac yn gorfforol.

Cymerodd wythnosau o anogaeth ofalus i gael Tyler i gysgu mewn gwely. Byddai'r staff yn eistedd wrth ei ymyl drwy'r nos yn ceisio ei annog yn ofalus i godi oddi ar y llawr, gan mai cysgu ar y llawr yr oedd wedi'i wneud erioed. Roedd yn ddigwyddiad pwysig iawn pan gysgodd yn ei wely am y tro cyntaf.

Gyda chefnogaeth y staff cariadus yno, dysgodd Tyler sut i brosesu a gwella ar ôl ei drawma. Dechreuodd ymddiried mewn pobl eto ac mae'n teimlo bod y staff a'r plant fel teulu iddo nawr.

Dyweddodd Caroline, y Rheolwr Preswyl, wrthym: ***"Mae'n bwerus iawn pan fyddwch chi'n dweud wrth blentyn 'does dim ots beth wyt ti'n mynd i'w wneud, rydyn ni'n mynd i aros yma, rydyn ni'n mynd i dy garu di a dy arwain drwy'r cyfan'. Rydyn ni yno i sefyll dros blant. Dyna mae Gweithredu dros Blant yn ei wneud. Rydyn ni'n sefyll dros bob plentyn ac rydyn ni'n gweithio drwy gyfnodau anodd gyda'n gilydd."***

** Mae'r stori hon yn seiliedig ar sawl stori wir am bobl ifanc a gefnogir gan Action for Children-Gweithredu dros Blant. Defnyddir y stori a'r llun o 'Tyler' i ddangos beth maen nhw wedi bod drwyddo a sut rydyn ni'n eu cefnogi.*

Cynnwys

3 Cyflwyniad

- 4 Gair o Groeso gan ein Cadeirydd
- 5 Helo gan ein Prif Swyddog Gweithredol
- 6 Uchafbwyntiau ein blwyddyn
- 8 Perfformiad ariannol

9 Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

- 9 Ein strategaeth
- 11 Ein gwasanaethau
- 12 Datblygu ein gwasanaethau a chynyddu ein heffaith
 - 12 Cefnogaeth i deuluoedd
 - 15 Gofal plant o safon
 - 16 Plant mewn gofal
 - 19 Iechyd meddwl a lles
 - 21 Plant a phobl ifanc anabl
 - 22 Diogelu
- 23 Dylanwadu ar bolisi i wella bywydau plant
- 26 Codi arian ac ymwybyddiaeth

31 Galluogi ein gwaith

- 31 Ein pobl
- 33 Bod yn fwy effeithlon
- 34 Ein hymrwymiad i gynaliadwyedd

35 Ein ffocws ar gyfer 2024/25

36 Adolygiad ariannol

40 Rheoli risg

44 Llywodraethu

- 44 Strwythur cyfreithiol a llywodraethu
- 45 Dyletswydd ymddiriedolwyr

48 Datganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

49 Adroddiad yr archwilydd annibynnol

52 Datganiadau ariannol

77 Gwybodaeth ychwanegol

- 77 Ein manylion cyfreithiol a gweinyddol

79 Diolch

Rydyn ni'n gweithredu dros blant



Croeso

gan Gadeirydd ein Ymddiriedolwyr, Sarika

Rydw i'n hynod falch o'r gwasanaethau mae Action for Children-Gweithredu dros Blant yn eu darparu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi helpu 687,755 o blant, pobl ifanc a theuluoedd – gan wneud gwahaniaeth anhygoel i'w bywydau. Rydyn ni hefyd wedi cymryd camau tuag at ein nod uchelgeisiol o gynyddu ein gwasanaethau ar gyfer plant agored i niwed.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi arwain at heriau mwy sylweddol i'r rheini rydyn ni'n eu cefnogi. Roedd effaith barhaus yr argyfwng costau byw, prisiau cynyddol a chyfraddau chwyddiant uchel yn dal i gael effaith ddinistriol ar lawer o deuluoedd. Mae'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol yn amlwg hefyd, gyda nifer o anawsterau ariannol, tra bo anghenion eu cymunedau'n tyfu o ran dwyster a chymhlethdod – er enghraifft, angen cynyddol am wasanaethau cymorth iechyd meddwl. Mae hyn i gyd ar adeg pan mae'r cyllid mor dynn. Yn syml, mae wedi bod yn flwyddyn arall o geisio gwneud mwy gyda llai o arian.

Rydym wedi bod yn addasu ein dull gweithredu yn gyflym er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn – yn enwedig blaenoriaethu a chyflymu'r gwaith o ddarparu ein cartrefi preswyl newydd i blant, gyda thri chartref newydd arall wedi agor yn ystod y 12 mis diwethaf. Rydyn ni nawr wedi ychwanegu pedwar cartref newydd at ein portffolio, gyda 10 arall wedi'u cynllunio dros y ddwy flynedd nesaf (darllenwch fwy ar dudalen 16). Fe wnaethom hefyd gomisiynu adolygiad o'r broblem gynyddol o blant sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol, gan adeiladu ar ein gwaith yn y maes hwn. Diolch o galon i'r ymddiriedolwr Gweithredu dros Blant a'r bargyfreithiwr teuluol Charles Geekie KC a oedd ar y panel adolygu, dan arweiniad yr arbenigwr diogelu plant, yr Athro Alexis Jay CBE, a alwodd ar y llywodraeth am system ddiwygio ledled y DU (darllenwch fwy ar dudalen 23).

Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ein sefydlogrwydd ariannol ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cymorth y gallwn ei roi i blant agored i niwed. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi rhoi nifer o gynlluniau ar waith i wella ein heffeithlonrwydd, gan gynnwys adolygu ein prosesau a'n strwythurau cymorth mewnol i wneud yn siŵr bod gennym yr adnoddau cywir yn y lle iawn i gyflawni ein strategaeth (darllenwch fwy am ein rhaglen Sefydliad Delfrydol ar dudalen 33).

Wrth gefnogi plant a theuluoedd gyda'r problemau uniongyrchol maen nhw'n eu hwynebu, rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i sicrhau newid parhaol. Mae ein hadroddiadau polisi diweddar wedi taflu goleuni ar y pwysau sydd ar deuluoedd, yn enwedig o ran y rhwystrau y maent yn eu hwynebu o ran gweithio a chael dau ben llinyn ynghyd. Gyda llywodraeth newydd ar waith, byddwn yn parhau i alw am y cynnydd y gwyddom ei fod yn bosibl ac yn cydweithio ag elusennau plant blaenllaw eraill i gryfhau'r galwadau hynny.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Bwrdd Llysgenhadon Ifanc ysbrydoledig wedi helpu i godi llais pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Rydyn ni mor falch a diolchgar am eu hymroddiad a'u hangerdd dros newid. Mae ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant hefyd wedi parhau i symud ymlaen yn gyflym, wrth i ni gyflwyno ein rhaglenni Datblygu Potensial a Mentora Dwyffordd. Mae'r

ddwy fenter wedi'u cynllunio i helpu ymdrechion i chwalu rhwystrau i ddilyniant ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn ein helusen. Mae ein rhwydweithiau staff hefyd yn parhau i wneud gwaith anhygoel, gan ddathlu a hyrwyddo cymunedau, materion a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

Yn olaf, fe wnaethom groesawu Navin Kaul fel ymddiriedolwr newydd ym mis Mawrth 2024. Mae Navin wedi bod yn ymwneud ag Action for Children-Gweithredu dros Blant ers 2019 ac fel ein holl ymddiriedolwr, mae wedi ymrwymo i gael effaith gadarnhaol ar fywydau'r rheini rydyn ni'n eu cefnogi.

Diolch i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, cydweithwyr cyfetholedig, ein holl staff a gwirfoddolwyr a phob un o'n cefnogwyr anhygoel am y gwahaniaeth anhygoel maen nhw'n ei wneud. Mae ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd yn ein hysbrydoli i ddarparu ar gyfer plant a sicrhau ein bod yn parhau yn achubiaeth iddynt.



Sarika Patel,
Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



Helo

gan ein Prif Weithredwr, Paul

Pan ddeuthum yn Brif Weithredwr y llynedd, roeddwn yn gwybod bod gennym heriau o'n blaenau. Fel pob sefydliad sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd, ond mae hefyd wedi bod yn fwy gwerthfawr nag y gallwn i erioed fod wedi dychmygu.

Mae arwain sefydliad o staff anhygoel ac ymroddedig, i gyd yn mynd yr ail filltir bob dydd i helpu'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd sydd ein hangen, yn fraith wirioneddol. Rydw i'n falch iawn o bopeth mae teulu Gweithredu dros Blant wedi'i gyflawni gyda'i gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mewn cyfnod o anghenion cynyddol a hinsawdd economaidd anodd, fy mlaenoriaethau uniongyrchol fu gweithio'n galed i ddatblygu ein gwasanaethau – er mwyn i ni allu creu plentyndod mwy diogel a hapus – a gwneud yn siŵr ein bod yn gweithredu mor effeithlon â phosibl. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno ein rhaglen Sefydliad Delfrydol, sy'n ceisio sicrhau bod ein sylfaen costau yn gynaliadwy a bod gennym yr adnoddau a'r sgiliau cywir ar waith i gyflawni ein strategaeth. Dydy newid byth yn hawdd, ond mae'r ffordd mae cydweithwyr wedi ymwneud â'r gwaith hwn wedi creu argraff fawr arnaf. O ran twf, mae wedi bod yn wych gweld cyfleoedd twf yn dod i'r amlwg ar draws ein gwasanaethau yn ogystal â datblygiad cryf ein rhaglen twf preswyl (darllenwch fwy am hyn ar dudalen 16).

Gan adeiladu ar ein Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar Troseddau Cyfundrefnol Difrifol hynod lwyddiannus a lansiwyd yn yr Alban ac sydd bellach yn Newcastle a Chaerdydd, credaf fod The Jay Review i blant sy'n destun cam-fanteisio troseddol yn un o'r darnau pwysicaf o waith mae Action for Children wedi'i hyrwyddo. Ym mis Mawrth 2024, fe wnaethom

gyhoeddi ein canfyddiadau yn *Shattered lives, stolen futures*, yn galw ar y llywodraeth i ddiwygio'r system ar draws y DU er mwyn atal camfanteisio'n droseddol ar blant (darllenwch fwy ar dudalen 23).

Mae ein timau codi arian wedi cael blwyddyn wych arall, gan godi £17.2m. Lansiwyd ein digwyddiad Gala Dan y Sêr cyntaf ym mis Tachwedd. Croesawodd Canolfan Gelf hyfryd Battersea yn Llundain enwogion a chefnogwyr i fwynhau noson ysblennydd. Cefais fy nghyfareddu wrth wyllo ein côr Young Carers Aloud o Gymru, dan arweiniad y gantores Charlotte Church, yn perfformio gyda'r fath dalent ac angerdd.

Ddechrau 2024, fe wnaethom hefyd lansio ein hymgyrch clymblaid etholiad cyffredinol – Plant wrth y Bwrdd – gan weithio gydag elusennau plant eraill – Barnardo's, Cymdeithas y Plant, Biwro Cenedlaethol y Plant a'r NSPCC. Gyda'n gilydd, fe wnaethom alw ar y llywodraeth a'r holl bleidiau gwleidyddol i weithio gyda'i gilydd i wella bywydau babanod, plant a phobl ifanc, i roi anghenion a lleisiau plant wrth galon penderfyniadau a'r broses o lunio polisiau, ac i wario mwy o arian y genedl arnyn nhw. Gyda llywodraeth

newydd ar waith, mae cyfle go iawn i greu dyfodol mwy disglair i blant a phobl ifanc agored i niwed.

Cyrhaeddodd ein gwasanaeth Parent Talk ar-lein 468,786 o bobl y llynedd. Ac rydyn ni'n falch iawn bod astudiaeth gan Brifysgol Birmingham wedi cadarnhau gwerth y gwasanaeth arobryn hwn i'r rhieni y mae'n eu cefnogi (darllenwch fwy ar dudalen 14).

Hoffwn ddiolch i bob aelod o deulu Gweithredu dros Blant, am barhau'n achubiaeth hanfodol i blant agored i niwed ledled y DU. Gyda'n gilydd, gallwn barhau i sicrhau plentyndod hapusach a mwy diogel i blant.



Paul Carberry,
Prif Weithredwr



Uchafbwyntiau'r

flwyddyn wedi'u

Sbarduno gan gariad,

fe wnaethon ni helpu

687755

o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn 2023/24.

Mae hynny ar draws ein pedwar maes:



611,089

Cymorth i deuluoedd



7,839

Plant mewn gofal



13,949

Plant a phobl
ifanc anabl



54,878

Iechyd meddwl
a llesiant

Uchafbwyntiau'r flwyddyn



← Fel rhan o'n rhaglen twf preswyl, rydyn ni nawr wedi agor pedwar cartref newydd i blant (tri yn agor yn ystod y 12 mis diwethaf), ac rydyn ni'n bwriadu agor 10 arall dros y ddwy flynedd nesaf.

→ Cododd ein Gala Dan y Sêr gyntaf ym mis Tachwedd dros £154,000, gyda'n côr Young Carers Aloud yn perfformio.



Buom yn gweithio gyda Barnardo's, NSPCC, Biwro Cenedlaethol y Plant a Chymdeithas y Plant i gyflwyno'r Ymgrych Plant wrth y Bwrdd, gan ddadlau'r achos dros roi blaenoriaeth i blant yn yr Etholiad Cyffredinol.



↑ Cafodd 350 o bobl ddiwrnod gwych yn ein gŵyl gynhwysol gyntaf – FestivAll – gan alluogi pobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion i fwynhau'r math hwn o ddigwyddiad am y tro cyntaf.

Fe wnaethom gyflwyno ein rhaglenni Datblygu Potensial a Mentora Dwyffordd i chwalu'r rhwystrau a wynebwr gan staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac anabl.



↑ Rydyn ni wedi rhoi blaenoriaeth i siarad am dlodi plant a'r rhwystrau y mae llawer o rieni'n eu hwynebu wrth weithio neu weithio mwy o oriau.



Fe wnaethom gomisiynu adolygiad dan gadeiryddiaeth yr arbenigwr diogelu plant, yr Athro Alexis Jay CBE, i sut y gall polisi ac ymarfer atal ac ymateb yn well i'r broblem gynyddol o blant sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol. Fe wnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau yn *Shattered lives, stolen futures*.



Ac rydyn ni wedi parhau i weithio gyda llawer o bartneriaid anhygoel, gan gynnwys Partneriaeth John Lewis ac Ella's Kitchen.



Wedi'i sbarduno gan gariad

Perfformiad ariannol

Dyma grynodeb o'n cyllid ar gyfer 2023/24.



Incwm	2023/24	2022/2023
■ Gweithgareddau elusennol	£136.3m	£129.9m
■ Rhoddion a chymynroddion	£17.2m	£18.6m
■ Incwm o fuddsoddiad	£1.6m	£1.3m
■ Arall	£0.2m	£0.0m
Cyfanswm	£155.3m	£149.8m

Gwariant	2023/24	2022/2023
■ Gweithgareddau elusennol	£154.3m	£143.1m
■ Codi arian	£6.7m	£6.3m
■ Arall	£0.0m	£0.1m
Cyfanswm	£161.0m	£149.4m

Sut y gwnaethom greu plentyndod mwy diogel a hapus

Gwariant ar weithgareddau i helpu plant



£68.4m

Cymorth i
deuluoedd



£36.6m

Plant mewn gofal



£37.2m

Plant a phobl
ifanc anabl



£11.3m

Iechyd meddwl
a lles



£0.8m

Polisi ac
ymgyrchu

Ble bydd eich arian yn mynd


Yn 2023/24 defnyddiwyd **85c o bob £1** i greu plentyndod hapus a diogel. Buddsoddwyd gweddill yr arian mewn costau codi arian a chostau gweinyddol i redeg yr elusen.

Am bob £1 rydyn ni'n ei gwario:

Mae **85c** yn helpu
plant, pobl ifanc a
theuluoedd.

4c ar godi arian.

11c ar y gwaith gweinyddol.



Plentyndod hapusach a mwy diogel



Ein gweledigaeth

Bod gan bob plentyn a pherson ifanc yn y wlad plentyndod hapus a diogel a'r sylfeini sydd eu hangen arnynt i ffynnu.



Ein cenhadaeth

Rydyn ni'n cymryd camau i newid plentyndod y rheini sydd angen help i ffynnu. Rhoi'r amddiffyniad a'r cymorth ymarferol sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc agored i niwed ar frys ac ymgyrchu'n ddiflino dros newid parhaol.



Ein gwerthoedd

Ym mhopeth a wnawn, rydyn ni'n: angerddol, uchelgeisiol, cydweithredol a chynhwysol.

Ein strategaeth

Mae'n cynnwys saith nod strategol. Mae'r nodau hyn yn sail i'r saith nod mae ein hymrwymiad i roi llais plant a phobl ifanc wrth galon ein gwaith, ac ymgorffori ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae adran gyntaf yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro o amgylch ein saith nod – gan ddechrau gyda sut rydyn ni'n cynyddu ein heffaith drwy gynyddu ein gwasanaethau craidd, ac yna'r gwaith rydyn ni'n ei wneud i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi.

Mae'r adroddiad wedyn yn symud ymlaen at ein gwaith codi arian a sut rydyn ni'n rhoi mwy o gefnogaeth i'n gweledigaeth a'n cenhadaeth drwy gynyddu ymwybyddiaeth o frand.

Yn olaf, rydym yn egluro sut rydyn ni'n galluogi hyn drwy ein staff a'n gwirfoddolwyr gwyh, gyda chynlluniau sy'n cefnogi ffyrdd mwy effeithlon o weithio a defnyddio adnoddau.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd:

- 1** Datblygu ein gwasanaethau i helpu mwy o blant a phobl ifanc.
- 2** Cynyddu effaith ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc.
- 3** Dylanwadu ar benderfyniadau polisi i wella bywydau plant a phobl ifanc.

Sut byddwn ni'n gwneud hyn:

- 4** Denu, datblygu a chadw staff a gwirfoddolwyr rhagorol.
- 5** Ysbrydoli mwy o gefnogaeth i'n gweledigaeth a'n cenhadaeth.
- 6** Cynyddu ein cyfraniad ariannol o godi arian, meithrinfeydd a gofal plant.
- 7** Sicrhau'r gwerth gorau i blant a phobl ifanc a gwella effeithlonrwydd.

Ein gwasanaethau

Rydym yn darparu **372** o wasanaethau mewn cymunedau lleol ledled y DU, mewn ysgolion ac ar-lein.

Cymorth i deuluoedd

Cefnogi teuluoedd i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd Gwneir hynny drwy'r canlynol:

68 o ganolfannau plant a chanolfannau teulu.

61 o wasanaethau cymorth i deuluoedd.

43 o feithrinffeydd a chlybiau y tu allan i'r ysgol.

36 o wasanaethau cefnogi ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys cyfiawnder ieuencid, gwaith ieuencid a chefnogaeth ieuencid.

9 o wasanaethau gofalywyr ifanc.

1 o wasanaethau Parent Talk ar-lein.

Plant mewn gofal

Gofalu am blant a phobl ifanc i roi cartref diogel, sefydlog a chariadus iddyn nhw, drwy sicrhau'r canlynol:

20 o wasanaethau cymorth tai.

15 o wasanaethau maethu a mabwysiadu.

11 o gartrefi plant.

1 gwasanaeth hawliau plant ac ymwelwyr annibynnol.

1 ysgol breswyl.

Plant anabl

Cefnogi plant anabl, pobl ifanc a'u teuluoedd, drwy sicrhau'r canlynol:


55 o wasanaethau gwyliau byr preswyl a chymunedol.

14 o gartrefi i blant anabl.

Iechyd meddwl a llesiant

Meithrin cadernid emosiynol plant a phobl ifanc i'w helpu i oresgyn heriau, drwy sicrhau'r canlynol:

37 o wasanaethau cymorth iechyd meddwl.



Datblygu ein gwasanaethau a chynyddu ein **heffaith**

Cymorth i deuluoedd

Bydd angen help, cefnogaeth ac arweiniad ar bob teulu, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, ar ryw adeg.

Rydyn ni'n gwybod bod pob teulu'n wahanol. Dyna pam rydyn ni'n teilwra ein cymorth ac yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau sydd wedi cael effaith amlwg. Gwelwn dro ar ôl tro y gall y gefnogaeth briodol fynd i'r afael ag anghenion teulu yn gynnar, ac mae'n atal pethau rhag gwaethygu. Mae'r profiad hwn yn dylanwadu ar ein gwaith polisi, drwy ein galwadau i wella cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i deuluoedd ac ymyrraeth gynnar.

Mae ein cefnogaeth i deuluoedd yn cynnwys gwasanaethau fel:

- Ein gwasanaeth cyngor ar-lein arobryn, Parent Talk.
- Cymorth magu plant a chymorth cynnar i blant a theuluoedd.
- Cefnogi gofawyr ifanc.
- Gwasanaethau ieuencid, helpu gyda phethau fel cyflogaeth a meithrin sgiliau.
- Ac mae Spring Nurseries a Spring Books yn darparu gofal plant.

Stori Charlene

Mae gan Charlene, 36 oed, o Ddyfnaint ferch chwech oed. Mae hi'n fam sengl sy'n dibynnu ar Gredyd Cynhwysol oherwydd nad yw hi'n gallu gweithio gan ei bod hi'n byw gyda chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) a phroblemau iechyd meddwl. Mae wedi cael ei chefnogi gan Ganolfan Blant Gogledd Dyfnaint Gweithredu dros Blant yn Barnstaple ers chwe blynedd. Pan fydd arian wedi bod yn dynn, rydyn ni wedi bod yno i helpu.

“Rydw i wedi torri'n ôl ar bopeth, ond rydw i dal ar adegau wedi edrych yn y cypyrddau ac maen nhw'n wag. Rydw i'n hepgor prydau bwyd sawl gwaith yr wythnos ac yn aml dim ond bwyta grawnfwyd fel prif bryd o fwydgan mai dyna'r cyfan sydd gen i ar ôl o'r parsel bwyd.”

Mae ei merch yn cael cinio poeth yn yr ysgol bob dydd, sy'n rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl iddi. Ond yn ystod gwyliau'r ysgol, mae gwneud yn siŵr ei bod yn cael pryd poeth bob dydd yn “bryder mawr.”


Y gwasanaethau a wnaed gan ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd

Cofnodwyd canlyniadau ar gyfer dros **12,000** o blant a phobl ifanc a'u rhieni/gofawyr a ddefnyddiodd ein hystod o wasanaethau cymorth i deuluoedd.

“Mae'n gwneud i mi deimlo'n ofnadwy nad ydw i'n gallu darparu pethau sylfaenol iddi.”

Mae'n ddiraddiol fel rhiant. Pan fyddwch chi'n llwglyd ac yn poeni am fwydo eich plentyn, allwch chi ddim canolbwyntio ar unrhyw beth arall.”

“Mae Gweithredu dros Blant wedi fy helpu gyda phethau fel parseli bwyd, grantiau i dalu am wisg ysgol a chynghor ar gyllidebu a biliau. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud heb y staff yn y ganolfan blant. Maen nhw bob amser yno i siarad â nhw, a dydw i byth yn teimlo fy mod yn cael fy marnu.”



Charlene

Fe wnaethant ddangos y canlynol i ni:

- Mae **83%** o rieni/gofawyr wedi gwella eu sgiliau magu plant a'u hyder drwy ein gwasanaethau cefnogi teuluoedd.
- Mae gan **77%** o'r plant a'r bobl ifanc berthynas well â'u rhiant/gofalwr.

Ehangu ein gwasanaethau presennol

Rydyn ni bob amser yn addasu ac yn ehangu ein gwasanaethau i ymateb i anghenion lleol a'u diwallu. Dyma rai enghreifftiau o'r flwyddyn ddiwethaf hon.

Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom lansio pumed tîm Therapi Teulu Swyddogaethol (FFT) Gweithredu dros Blant yn Moray, yr Alban, gan adeiladu ar ein record o gyflawni FFT yn llwyddiannus yn yr Alban ers 2012.

Ymyriad teulu cyfan therapiwtig sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw FFT, ac mae'n gweithio gyda rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed. Mae'n cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel yn eu cymunedau, gan leihau'r risg y bydd y person ifanc yn cael ei roi mewn gofal a gwella ei ganlyniadau hirdymor.

Ar ôl ei sefydlu, gosododd y gwasanaeth Moray gofnodion newydd ar gyfer nifer y teuluoedd a gyfeiriwyd at dîm FFT sydd newydd ei sefydlu yn yr Alban, gyda 47 o atgyfeiriadau yn 2023/24. Hyd yma, mae wyth teulu wedi cwblhau'r ymyriad therapiwtig pum mis, gyda 100% o deuluoedd yn adrodd am welliannau mewn perthnasoedd a llai o wrthdaro.

Yn Newcastle, Dyfnaint a Norfolk, rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i barhau neu ehangu ein gwaith drwy fodel y Ganolfan Deulu.

O ganlyniad i hyn, derbyniodd ein Gwasanaeth Cymorth Cynnar yn Newcastle £318,000 yn ychwanegol i ddarparu cymorth penodol wedi'i dargedu ar gyfer rhieni ifanc, rhieni plant cyn oed ysgol a grwpiau cymorth i deuluoedd ar y Dull Solihull. Mae hwn yn ddull o fagu plant sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles mewn rhieni, plant, ysgolion ac oedolion hŷn.

Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn dod â chyfanswm gwerth ein gwasanaethau yn Newcastle ar gyfer 2023/24 i dros £2 filiwn. Yn ein Gwasanaeth Cymorth Cynnar yn Norfolk, dyfarnwyd y contract i ni i gefnogi darpar rieni yn ogystal â rhieni a/neu ofalwyr gyda phlentyn hyd at ddwy oed. Diolch i'r cyllid ychwanegol hwn (dros £800k o gyllid Canolfannau Teulu ym mis Awst 2023), rydym nawr yn cynnig amrywiaeth o gymorth wedi'i dargedu sy'n cael ei yrru gan ddata, er mwyn canolbwyntio'n benodol ar grwpiau sy'n aml heb ddigon o gefnogaeth. Er enghraifft, rydym ni wedi datblygu cwrs (sydd hefyd yn seiliedig ar y Dull Solihull) ar gyfer rhieni ag anawsterau dysgu, sy'n dechrau denu diddordeb cenedlaethol.

Yn Nyfnaint, mae ein dull dysgu cymunedol, Building Babies Brains, sy'n cefnogi rhieni a gofalwyr yn 1001 diwrnod cyntaf bywyd eu plentyn, yn cael ei ehangu i Dde Orllewin Lloegr a Chymru, gydag oddeutu 250 o hyrwyddwyr hyd yma.

Gweithio gyda'n gilydd i helpu i roi terfyn ar gam-fanteisio

Yn 2023, fe wnaethom ddechrau gwasanaeth newydd yn yr Alban i weithio ochr yn ochr â rhaglenni presennol sy'n cefnogi plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion sydd fwyaf agored i gam-fanteisio yn Ucheldiroedd yr Alban.

Mae The Anchor yn ffurfio clwstwr gyda Chymorth Dwys a Gwasanaethau Ymyrraeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol Ucheldiroedd yr Alban, ac mae'n darparu cymorth ymyrraeth gynnar.

Mae'n cymryd rhan mewn prosiectau allgymorth sy'n helpu pobl ifanc sy'n agored i gamfanteisio a mathau eraill o amlygiad a allai beri risg iddynt, fel camddefnyddio alcohol neu gyffuriau.



Gyda'r tri gwasanaeth hyn yn gweithio gyda'i gilydd, mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael y cymorth iawn, sy'n diwallu eu hanghenion, ar yr adeg iawn.

Mae'r gwasanaeth newydd hwn, a gwaith cydweithredol y clwstwr hwn o wasanaethau yn Inverness, yn enghraifft ar lawr gwlad o'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud o safbwynt polisi, gan godi ymwybyddiaeth o blant sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol a galw ar y rheini sydd mewn grym i roi polisiâu a gweithdrefnau ar waith a allai helpu i newid y dyfodol. Mae mynd i'r afael â'r angen hwn sydd heb ei ddiwallu yn ffocws i ni, a gallwch ddarllen mwy am yr Adolygiad Jay a gomisiynwyd gennym ar dudalen 23.



Cafodd ein gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Troseddau Cyfundrefnol Difrifol sydd wedi ennill gwobrau ei lansio gyntaf yn Glasgow yn 2013. Ers hynny, mae wedi ehangu ledled y DU ac mae bellach yn cael ei ddarparu yng Nghaerdydd, Newcastle, Caeredin, Dundee, Inverclyde ac Ucheldiroedd yr Alban.

Cyngor ar fagu plant o ddydd i ddydd y gallwch ymddiried ynddo

Parent Talk yw ein gwasanaeth cymorth digidol unigryw i rieni plant rhwng 0 a 25 oed sydd â phlentyn ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (AAAA). Mae'n darparu cyngor am ddim ar dros 240 o bynciau – o fwydo babanod i iechyd meddwl pobl ifanc.

Gall rhieni hefyd gael gafael ar gyngor a chymorth personol manwl drwy sgwrs fyw un-i-un gyda'n hyfforddwyr magu plant profiadol.

Ers iddo ddechrau yn 2020, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi dros 1.8 miliwn o bobl, gyda 99% o ymatebwyr yn 2023/24 yn dweud bod Parent Talk yn 'dda' neu'n 'anhygoel'.

Rydym wedi gallu gwella a datblygu Parent Talk ymhellach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn diwallu anghenion rhieni yn well, a bod yn fwy hygyrch ac yn haws ei ddefnyddio. Treialwyd Parent Talk+, gwasanaeth i roi cefnogaeth ddwys i rieni a gofalwyr gyda phlant sydd ag anghenion ychwanegol dros gyfnod o chwe mis.

Gwyddom, o'n hymchwil ein hunain, fod y rhieni hyn yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth digonol. Felly, cynigiodd Parent Talk+ wyth sesiwn o gymorth dwys 60-90 munud dros y ffôn gyda hyfforddwr magu plant sydd â dealltwriaeth o anghenion ychwanegol, a'r cyfreithiau a'r hawliau sy'n gysylltiedig ag AAAA.

Rhwng mis Mai 2023 a mis Mawrth 2024, cynhaliodd ymchwilwyr ym Mhrifysgol Birmingham werthusiad o'n gwasanaeth hefyd.



Mae eu hadroddiad yn dangos yr effaith hynod gadarnhaol y gall Parent Talk ei chael o ran gwella hyder rhieni/gofalwyr yn eu gallu i fagu plant, gan gynnwys datblygu gwelliannau amlwg o ran gallu rhieni, iechyd meddwl, gwybodaeth, sgiliau a strategaethau ymdopi.

Mae ymchwil yn dangos cysylltiad cryf rhwng lleihau straen rhieni/gofalwyr, gwella sut roeddent yn teimlo o ran eu llwyddiant fel rhiant, a gwell gweithrediad fel teulu a chanlyniadau i blant. Ac fel y dangosir yn yr adroddiad, mae'r rhan fwyaf o rieni/gofalwyr yn

gweld gwelliannau sylweddol iddyn nhw eu hunain, i'w plant ac i'w teulu ar ôl defnyddio Parent Talk.

468,786

Cefnogodd Parent Talk o bobl y llynedd



Gofal plant o safon

Rydym yn darparu gwasanaethau gofal plant sydd wedi ennill gwobrau¹, o'u geni hyd at pan fyddant yn 14 oed, drwy ein cynllun Spring by Action i feithrinfeydd plant, Spring Oscars i glybiau tu allan i'r ysgol. Yn 2023/24, roedd gofal plant Spring yn gofalu am 8,600 o blant ar draws ein meithrinfeydd a chlybiau y tu allan i'r ysgol.

Mae Spring Nurseries a chlybiau y tu allan i'r ysgol Oscars yn rhan o gangen fasnachol Gweithredu dros Blant. Yn ogystal â darparu gwasanaethau gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar hanfodol i rieni a phlant, mae unrhyw warged a gynhyrchir gan Spring ac Oscars yn llifo'n syth i Gweithredu dros Blant i gefnogi gwaith ehangach ein helusen.

Mae 2023 wedi bod yn flwyddyn gythryblus arall i'r sector addysg blynyddoedd cynnar, gyda diwygiadau sylweddol i systemau cyllido ac adolygiadau a diwygiadau pellach gan y llywodraeth yn cael eu cyhoeddi. Er bod nifer o'n Meithrinfeydd Spring yn parhau i berfformio'n gryf, yn gynnar yn 2023, gwnaethom y penderfyniad anodd i gau nifer o leoliadau nad oeddent yn gynaliadwy i'r elusen eu gweithredu mwyach. Yn ystod y flwyddyn, mae deg meithrinfa Spring ac wyth clwb Oscar wedi cael eu trosglwyddo i ddarparwyr eraill, a bu'n rhaid i un feithrinfa Spring gau. Mae un feithrinfa arall ac un clwb ar ôl ysgol arall i fod i gael eu trosglwyddo yn y flwyddyn i ddod. Ddiwedd 2023/24, roedd gennym 27 o feithrinfeydd Spring ac 16 o glybiau Oscars.



Serch hynny, mae Spring gan Gweithredu dros Blant yn parhau yn llais i'r sector. Rydym wedi cael ein henwi yn adroddiad Cymorth y Pwyllgor Dethol ar Addysg ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, wedi siarad yn Fforwm Addysg San Steffan, ac wedi cyhoeddi erthyglau ar y diwygiadau yng nghyhoeddiadau'r sector. Mae Spring hefyd wedi datblygu strategaeth Thriving Twos, sy'n amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi staff sy'n gweithio gyda phlant dwy oed ar draws y sector, drwy hyfforddiant, mentrau a chyfleoedd.

Y llynedd hefyd lansiodd Llwybrau Dysgu Spring i ategu Llwybrau Gyrfa Spring. Mae'r ddau'n cefnogi datblygiad gyrfa ystyrlon yn Spring, gan nodi'r hyfforddiant hanfodol, yr argymhellir a'r hyfforddiant

dewisol rydyn ni'n ei drefnu i gefnogi staff ar bob cam o'u gyrfa. Er ein bod yn cydnabod bod recriwtio a chadw staff yn dal yn her, rydym yn hyderus bod y llwybrau hyn, ynghyd â chynnydd mewn gohebiaeth am fanteision gweithio i Spring, yn cael ei adlewyrchu yn lefelau staffio a bodlonrwydd ein gweithlu yn 2024/25. Bydd hyn yn parhau i wneud Spring yn gyflogwr o ddewis yn y sector.

Mae 100% o'n meithrinfeydd yn parhau i gael eu hystyried yn dda neu'n rhagorol gan Ofsted (neu sefydliad cyfwerth). Ac oherwydd gwaith penodol gan y Tîm Gweithrediadau yn yr Alban, mae graddau arolygiadau Spring Oscars wedi gwella o 72% i 91%, sy'n ddigonol ac yn uwch.

¹ 20 o'r Cylchoedd Meithrin Mawr Gorau yn 2021.
<https://www.daynurseries.co.uk/awards/index.cfm/year/2021>

Plant mewn gofal

Mae mwy nag un o bob saith plentyn yn Lloegr yn cael rhywfaint o gysylltiad â gofal cymdeithasol plant yn ystod eu plentyndod². Ac mae nifer y plant sy'n ymuno â'r system ofal yn parhau i dyfu³.

Mae ein gwaith polisi yn pwyso am y newidiadau hanfodol sydd eu hangen i systemau, polisiâu a strwythurau. Ond er mwyn diwallu'r angen cynyddol, rydym yn gweithio tuag at ein nod strategol o agor mwy o gartrefi preswyl i blant nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd.

Yn 2023/24, fe wnaethom helpu 42,000 o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal drwy gymorth, gwybodaeth a chynghor. Mae hyn yn cynnwys tua 46 o blant mewn lleoliadau preswyl drwy gyfuniad o gartrefi Gweithredu dros Blant, a chartrefi rydym yn eu rhedeg ar ran awdurdodau lleol.

Rydym ni bellach wedi agor

4 o gartrefi newydd i blant ers dechrau ein rhaglen twf preswyl gyda'r bwriad o agor 10 arall dros y ddwy flynedd nesaf.



² Sbardunau gweithgarwch yn adroddiad Ymchwil gofal cymdeithasol plant, Mai 2022.

³ Yr Adran Addysg. 2023. Plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr gan gynnwys mabwysiadu.

Yn ogystal â chartref Westacres y gwnaethom ei agor yn 2022/23, y llynedd fe wnaethom agor tri chartref newydd – un yn Ne Cymru a dau yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n datblygu chwe chartref arall – dau gartref arhosiad hir ar gyfer plant anabl a phedwar ar gyfer y rheini sydd ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol (SEMH). Bwriedir i'r rhain agor a chroesawu plant a phobl ifanc yn 2024/25, gyda chynlluniau ar gyfer pedwar cartref arall yn 2025/26.

Tŷ Fro, yn Ne Cymru, yw un o'n cartrefi preswyl mwyaf newydd. Cyrhaeddodd y person ifanc cyntaf ym mis Tachwedd 2023. Erbyn hyn, mae Tŷ Fro yn gartref i dri o bobl ifanc – pob un ohonynt yn dechrau setlo mewn amgylchedd sefydlog a chariadus.

Cartref therapiwtig yn Northumberland yw East Farm, ar gyfer plant 12 oed neu iau pan fyddant yn symud i mewn. Fe wnaethom groesawu ein plentyn cyntaf i fyw yn East Farm yn ystod haf 2023, a'r ail yn yr hydref.

Cofrestrwyd cartref Ayton Villa yn Gateshead yng ngogledd ddwyrain Lloegr ym mis Gorffennaf 2023. Fe wnaethom groesawu dau fachgen naw oed ym mis Tachwedd 2023. Cawsom ein harolygiad cyntaf gan Ofsted ym mis Mawrth 2024 a chawsom sgôr 'da'.

Mae ein cefnogaeth i blant mewn gofal yn cynnwys gwasanaethau fel:

- Maethu.
- Cartrefi preswyl.
- Hawliau plant ac eiriolaeth.
- Ymwelwyr Annibynnol.
- A chynghor a chefnogaeth byw'n annibynnol i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Ein cartref newydd yn Westacres

Mae Westacres yn gartref preswyl i blant sydd wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod. A gall fod yn gartref iddynt nes eu bod yn 18 oed. Dyma'r cartref cyntaf i agor fel rhan o'n rhaglen twf preswyl.

Yn aml, mae plant yn Westacres wedi cael wyth neu naw cartref gwahanol, gan effeithio ar eu gallu i ymddiried mewn oedolion. Ond mae ein staff yn helpu plant i ddeall eu trawma, sut mae'n effeithio ar bwy ydyn nhw a sut maen nhw'n gweld y byd a'r oedolion ynddo.

Mae Westacres yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau plant a phobl ifanc, gan roi iddynt gysondeb mawr ei angen, ymdeimlad o gartref, a chariad. I gyd nabod hyn, dyfarnwyd Gwasanaeth y Flwyddyn i Westacres yn ein Gwobrau Stephenson yn 2023, gan ddathlu llwyddiannau anhygoel o bob rhan o deulu Gweithredu dros Blant.

“Y cyfan rydw i eisiau ei wneud yw gwneud gwahaniaeth i'r plant hyn. Rydw i eisiau eu gwneud nhw'n hapus. Rydw i eisiau gwneud iddyn nhw wenu. Rydw i eisiau gwneud iddyn nhw chwerthin. Rydw i eisiau iddyn nhw wneud eu gorau gyda'r amser maen nhw'n byw yma.”

– Paul, Gweithiwr Cymorth Preswyl, Westacres.

“Rydwy i wrth fy modd â Westacres oherwydd mae'r staff mor garedig a gofalgarg. Bydden nhw'n gwneud unrhyw beth i chi.”

– Person ifanc yn byw yn Westacres.

Brwydro dros Rossorry Grove

Yng nghyd-destun blwyddyn arall lle mae cyllid awdurdodau lleol o dan bwysau a llawer o wasanaethau dan fygythiad, yr ydym yn brwydro'n galed i gadw'r gwasanaethau hanfodol yr ydym yn eu gweithredu. Mae Rossorry Grove yn un enghraifft o'r penderfyniad hwnnw.

Mae Rossorry Grove yn wasanaeth llety â chymorth yn Enniskillen, Gogledd Iwerddon, ar gyfer 13 o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei gyd-gomisiynu, gyda threfniadau cyllido cymhleth. Yn 2022, roedd y gwasanaeth mewn perygl o gau oherwydd bod cyfran o'r cyllid hwnnw wedi ei thynnu'n ôl. Ond cymerodd y staff a'r bobl ifanc gamau ar unwaith, gan estyn allan at wleidyddion ac aelodau'r cyngor i dynnu sylw at ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc a'r diffyg cyllid, gwasanaethau a llety priodol yn y rhanbarth. Roedd y cyfryngau lleol wedi helpu i roi llais ehangach i'r bobl ifanc, ac roedd diwrnod agored yn y gwasanaeth ar gyfer aelodau lleol y Cynulliad Deddfwriaethol yn arddangos celf a gwaith arall a oedd yn cynrychioli effaith gadarnhaol Rossorry Grove.

Er gwaethaf y risg o golli swyddi, fe wnaeth tîm craidd o staff aros. Aeth y tîm bach hwn a'r rheolwr ymroddedig yr ail filltir bob dydd, i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddiogel ac yn cefnogi'r bobl ifanc wrth iddyn nhw ddelio â'r pryder o golli cartref diogel arall.

Ar ôl proses a gymerodd chwe mis, a'r darparwr newydd yn tynnu'n ôl, fe wnaethom negodi estyniad i'r contract, gyda'r cyllid ychwanegol angenrheidiol. Mae'r gwasanaeth wedi sefydlogi erbyn hyn, ac mae 13 lle i bobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd wedi cael eu hachub.

Dyma beth ddywedodd rhai o'r bobl ifanc pan gawsant wybod bod cyllid wedi'i gadarnhau:

“Mae popeth yn teimlo'n fwy gobeithiol, yn fwy disglair a diogel”

“Mae'r cartref yn teimlo fel cartref eto, heb yr ansicrwydd”

“Byddwn i wedi bod yn ddigartref eto gan nad oedd gen i ddim byd arall”

Enillodd un person ifanc, a oedd yn allweddol yn yr eiriolaeth hon, Wobr Seren Ifanc Stephenson ym mis Gorffennaf 2023.



Stori Louise am ei chyfnod mewn gofal

Mae Louise, sy'n 23 oed, yn byw yn Llundain ac yn fam sengl i'w merch tair oed. Cafodd ei magu mewn gofal maeth o 11 oed ymlaen. Erbyn hyn, mae hi'n un o'n Llysgenhadon Ifanc, yn rhoi llais i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac yn ein helpu i lunio ein gwasanaethau a'n cefnogaeth.


Bu Louise yn ymwneud ag Ymwelydd Annibynnol (IV) Gweithredu dros Blant rhwng pan oedd hi'n 12 a 18 oed. Gwirfoddolwyr hyfforddedig yw Ymwelwyr Annibynnol sy'n cael eu paru â person ifanc mewn gofal ac fel arfer yn cwrdd â nhw bob mis. Mae hyn yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc feithrin perthynas gefnogol a llawn ymddiriedaeth y tu allan i'r system ofal.

“Fel plentyn, roedd cael rhywun annibynnol ar y gwasanaethau cymdeithasol yn fy mywyd mor bwysig i mi. Doedd hi ddim yn barnu. Mae llawer o'r hyn sydd gen i wedi dod yn sgil ei chefnogaeth

hi. Roedd hi'n credu ynofi i, ac nid yw pobl yn aml yn credu ynom ni fel plant mewn gofal.”

Mae'r argyfwng costau byw a chost gofal plant wedi golygu bod Louise wedi cael trafferthion ariannol, er ei bod yn gweithio'n llawn amser. Mae hi'n teimlo nad oes digon o gefnogaeth i oedolion ifanc sy'n gadael gofal ac mae hi eisiau defnyddio ei phrofiad i helpu i roi llais i eraill fel hi.

“Mae gan gynifer o bobl ifanc sy'n gadael gofal gymaint o botensial a thalent, rydyn ni eisiau ffynnu, ond does gennym ni ddim y gefnogaeth a'r cysylltiadau iawn i'n harwain ni bob amser. Mae mor bwysig bod gennym fwy o gefnogaeth, a mynediad at y gwasanaethau a'r eiriolwyr cywir.”



Y gwahaniaeth mae ein cartrefi plant yn ei wneud

Y llynedd, fe wnaethom gomisiynu Prifysgol Birmingham i ymchwilio i sut mae ein cartrefi plant yn gwneud gwahaniaeth i'r plant a'r bobl ifanc sy'n byw ynddynt.

Fel rhan o'n hymchwil, mae plant, pobl ifanc a'r staff anhygoel yn ein cartrefi yng Ngogledd Cymru wedi sôn am eu profiad gyda ni. Canfu'r ymchwil fod y plant a'r bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi

Gweithredu dros Blant⁴ yn cael profiad cadarnhaol o ofal preswyl, ymdeimlad o berthyn, a theimlad o fywyd cartref 'normal'.

Roedd yr adroddiad yn dangos bod y profiad cadarnhaol hwn yn gysylltiedig â nodweddion pwysig y cartrefi yr ymwelwyd â nhw, gan gynnwys:

- Awyrgylch tebyg i deulu.
- Perthynas ofalgar, annwyl a sefydlog gyda staff.
- Ffocws cadarnhaol ar gynydd gan gynnwys canlyniadau tymor hir.
- Mae perthnasoedd personol yn cael eu gwerthfawrogi, eu hannog a'u cefnogi, gan gynnwys cyfeillgarwch a chysylltiadau cymdeithasol.
- Mannau personol, a mannau awyr agored ar gyfer cymdeithasu a chael hwyl, yn ogystal â mannau tawel a diogel i fod ar eich pen eich hun.
- Mae staff mewn cartrefi yn gweithio'n agos gydag aelodau'r tîm a rheolwyr mewn perthynas o ymddiriedaeth.



Yn ogystal â'r rhain, mae gan 41 (89%) o'n lleoliadau sefydlogrwydd gwell. Mae sefydlogrwydd lleoliad yn hanfodol i les a datblygiad plentyn ac i helpu i ddatblygu perthnasoedd llawn ymddiriedaeth. Mae plant a phobl ifanc sydd â sefydlogrwydd yn fwy tebygol o deimlo'n fwy diogel ac yn hapusach, gwneud yn dda yn yr ysgol a chyflawni eu potensial.

Rydyn ni'n adeiladu ar y cryfderau hyn ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu gofal o'r un ansawdd ar draws ein holl gartrefi, yn y pedair gwlad, ar yr un pryd â datblygu sylfaen dystiolaeth gref a'n helpu i ddarparu gofal cariadus a'r canlyniadau gorau posibl.

⁴ Y cartrefi a gafodd eu cynnwys yn yr ymchwil oedd Tan y Bryn a Than y Dre yng Ngogledd Cymru.

Iechyd meddwl a llesiant

Roedd gan un o bob chwech o blant a phobl ifanc yn Lloegr rhwng wyth a 25 oed ‘anhwylder iechyd meddwl tebygol’ yn 2023⁵. Yn ein gwasanaethau, mae 28% o blant wedi nodi bod ganddynt anghenion iechyd meddwl yn eu hasesiad cychwynnol – mae’r nifer hwnnw wedi dyblu ers cyn y pandemig. Ac mae nifer y plant a’r bobl ifanc sy’n cael trafferth yn dal i godi.

Dyna pam mae ein ffocws strategol yn cynnwys cymorth iechyd meddwl a llesiant mewn mwy o’n gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, ar draws pob rhan o’n gwaith, yn ogystal â darparu rhaglenni sy’n canolbwyntio ar gymorth iechyd meddwl a llesiant.

Mae ein cymorth iechyd meddwl a lles yn cynnwys gwasanaethau fel:

- Rhaglenni grŵp ac un-i-un ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Rhaglenni sy’n canolbwyntio ar leihau gorbryder ac iselder.
- A rhaglenni ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill.

Y llynedd, fe wnaethom barhau i ddarparu ein cymorth iechyd meddwl wedi’i dargedu i blant a phobl ifanc drwy ein gwasanaethau arbenigol.

- The Blues: ein cynllun lles chwe wythnos a ddarperir mewn ysgolion yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Mae plant 13 i 19 oed yn dysgu gwytnwch emosiynol a sut i leihau hwyliau isel a meddyliau pryderus. Fe wnaethon ni gyrraedd bron i 8,000 o bobl ifanc drwy The Blues yn 2023/24. Dywedodd 75% eu bod wedi magu hyder, bod 73% wedi gwella eu hunan-barch, a bod 81% bellach yn gallu siarad am eu hiechyd meddwl a’u lles. Byddai 98% yn argymhell y gwasanaeth i ffrind.
- Bouncing Back a Bouncing Back Plus: rhaglen pythefnos sy’n agored i bob plentyn oed ysgol gynradd ac uwchradd, gan roi cyflwyniad iddynt ar eu strategaethau ymdopi iechyd meddwl a lles. Mae Bouncing Back a Bouncing Back Plus yng Nghymru yn cael eu cefnogi gan rodd hael gan y Gweilch yn y Gymuned. Cwblhaodd dros 6,000 o blant a phobl ifanc y rhaglen Bouncing Back yn 2023/24. Dywedodd 94% fod ganddynt fwy o hyder, a bod gan 93% fwy o allu i ymdopi mewn sefyllfaoedd llawn straen.
- Y Canllaw: rhoi’r iaith a’r hyder i ddisgyblion blwyddyn naw yng Nghymru siarad am iechyd meddwl.

Rydym yn parhau i weithio ar hygyrchedd ein gwasanaethau iechyd meddwl a lles. Mae gan ein gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion yn Glasgow gwnselwyr sy’n gallu siarad nifer o ieithoedd, gan gynnwys Gaeleg. Gall pobl ifanc hefyd gyfeirio eu hunain drwy godau QR ar wahân.



Mae Gwasanaeth Iechyd a Lles Emosiynol Swydd Stafford hefyd wedi creu dau fideo wedi’u hanimeiddio a llyfrau gwaith cysylltiedig, i helpu plant pum mlwydd oed a throsodd i ddeall ac ymgysylltu â phynciau iechyd meddwl a lles.

Drwy gydol ein gwaith, rydym hefyd yn blaenoriaethu lles ein staff. Mae cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi esgeulustod, camdriniaeth, trawma a thrais eithafol yn gallu cael effaith fawr. Dyna pam ein bod yn gweithredu mentrau fel prosiect dadsensitiedd ac ailbrosesu symudiad llygaidd (EMDR) yn ein Gwasanaeth Iechyd a Lles Emosiynol Plant yn Gofal Derby a Derbyshire. Mae hyn yn helpu staff i wella o ddigwyddiadau trawmatig yn eu gweithle a pharhau i ddarparu gofal i rai o’r plant mwyaf agored i niwed.

⁵ Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn Lloegr, 2023. NHS. <https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/mental-health-of-children-and-young-people-in-england/2023-wave-4-follow-up>

Darparu mwy o gymorth lles gyda Scottish Friendly

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae partneriaeth Gweithredu dros Blant â'r grŵp gwasanaethau ariannol Scottish Friendly wedi darparu cymorth iechyd meddwl a lles i ddisgyblion mewn tair ysgol yn Glasgow.

Dewiswyd yr ysgolion ar sail Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban (SIMD) yn Glasgow, gyda'r ysgolion mwyaf heriol yn cyflwyno'r lefelau uchaf o dlodi ac felly dyma lle'r oedd angen ein cefnogaeth fwyaf. Yr ysgolion a gefnogwyd oedd Ysgol Uwchradd Lochend, Ysgol Uwchradd Govan ac Ysgol Uwchradd St Margaret Mary.

Mae ymrwymiad Scottish Friendly i'r rhaglen yn ariannu dau Ymarferydd Lles rhan-amser i ddarparu ystod o sesiynau iechyd meddwl a lles emosiynol i ddisgyblion, gan gynnwys ein Rhaglenni Bouncing Back a Blues.

Roedd y rhaglen yn cynnig cymorth fesul cam a oedd yn canolbwyntio ar un ysgol ar y tro. Gan ddechrau gydag Ysgol Uwchradd Lochend ym mis Awst 2023, yna Ysgol Uwchradd Govan o fis Tachwedd 2023 ymlaen, a St. Margaret Mary's o fis Ebrill 2024 tan ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Hyd yn hyn

mae **140** o ddisgyblion

Lochend wedi cael cymorth, gyda 31 yn cymryd rhan yn y Rhaglen Blues, 109 yn cymryd rhan yn Bouncing Back a naw yn cael cefnogaeth un-i-un.



O ganlyniad, roedd yr ymatebion yn cynnwys:

- **83%** o'r disgyblion a oedd yn ymwneud â Blues yn nodi ei bod wedi gwella eu hyder.
- **100%** yn nodi bod ganddynt berthynas well gydag aelodau'r teulu.
- **80%** yn nodi eu bod wedi gwella eu hiechyd a'u lles.
- Ac roedd **83%** wedi gwella presenoldeb yn yr ysgol.



Stori Ellis

Mae Ellis, sy'n 17 oed, wedi cael trafferth gyda'i hunanhyder ers colli ei fam pan oedd yn saith oed. Pan aeth y wlad i gyfnod clo, dechreuodd iechyd meddwl Ellis waethygu a dechreuodd ynysu ei hun oddi wrth eraill.

Wrth i ysgolion ailagor, gwahoddwyd Ellis i ymuno â Rhaglen Blues Gweithredu dros Blant, sy'n rhoi'r adnoddau i bobl ifanc ofalu am eu lles emosiynol lle dechreuodd ddeall ei deimladau'n well a chael offer defnyddiol i fynd i'r afael â meddyliau negyddol.

I Ellis, mae'r rhaglen wedi ei helpu i oresgyn ei ffordd negyddol o feddwl a chanolbwyntio ar y pethau cadarnhaol mewn bywyd.

“Ar y dechrau, doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl,” meddai Ellis. “Roeddwn i wedi ceisio estyn allan am gefnogaeth o'r blaen ac nid oedd dim wedi gweithio. Cymerais ran yn y rhaglen yn disgwyl mai'r un wybodaeth a jargon ag arfer y byddwn yn eu clywed, ond roedd yn gwbl wahanol.”

“Doedd y rhaglen ddim yn rhoi cyngor i chi, roedden nhw'n helpu i egluro sut mae emosiynau, gweithredoedd a meddyliau sy'n gysylltiedig ac yn ein helpu ni i ddeall sut gall un arwain at y llall. Roedd hefyd yn ein helpu i herio unrhyw feddyliau negyddol y gallem fod yn eu cael.”

“Un o'r prif bethau rydw i wedi'u dysgu o'r rhaglen yw'r system wobrwyo. Am unrhyw beth cadarnhaol rydych chi'n ei wneud drwy gydol y dydd, rydych chi'n gwobrwyo eich hun. Mae wedi fy helpu i sylwi ar y pethau cadarnhaol yn fy mywyd.”



Plant a phobl ifanc anabl

Y tu allan i awdurdodau lleol, ni yw darparwr mwyaf gwasanaethau anabled yn Lloegr i blant a phobl ifanc.

Y llynedd, fe wnaethon ni ennill nifer o contractau newydd mewn rhanbarthau ledled y DU i ddarparu gwasanaethau newydd ar gyfer plant anabl. Mae'r contractau hyn yn cynnwys ardaloedd fel Swydd Rydychen a Chaerloyw, ac maent ar gamau datblygu amrywiol – o'r camau cychwynnol hyd at symud. Rydym yn bwriadu eu hagor a'u rhoi ar waith y flwyddyn nesaf.

Ein contractau newydd ar gyfer lleoliadau unigol – gwasanaethau lle mae person ifanc anabl yn cael cefnogaeth ddwys un-i-un mewn cartref preswyl. Bydd y gwasanaethau newydd hyn yn ymuno â'n gwasanaeth lleoli unigol presennol yn Swydd Buckingham, gan ddarparu cartref i berson ifanc a oedd wedi byw mewn ysbyty diogel cyn dod i fyw i'w gartref am byth.

Mae ein cefnogaeth i blant anabl yn cynnwys gwasanaethau fel:

- Cartrefi preswyl tymor hir.
- Gwyliau byr i blant anabl a'u teuluoedd.
- Cymorth cymunedol fel triplau dydd neu gymorth yn y cartref.
- Gwasanaethau maethu gwyliau byr.



Y gwahaniaeth y mae ein gwasanaethau ar gyfer plant anabl yn ei wneud

- Mae gan **85%** o blant a phobl ifanc anabl well sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch.
- Mae **77%** wedi cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau neu weithgareddau newydd.
- Mae sgiliau bywyd **85%** wedi gwella.

Blwyddyn arall o ragoriaeth yn Headlands

Mae ein Hysgol Headlands unigryw yng Nghymru yn ysgol annibynnol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc gydag anawsterau emosiynol ymddygiadol a chymdeithasol, ymddygiad heriol ac Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig.

Roedd arolygiad monitro blynyddol yr ysgol gan Estyn ym mis Hydref 2023 yn gadarnhaol iawn. Crynhowyd cryfderau'r ysgol fel un sy'n darparu

cymuned gynhwysol, gan ddefnyddio dull unigol a rhoi cyfleoedd dysgu helaeth i ddisgyblion.

Bu Headlands hefyd yn dathlu gweithredu a chwblhau cymhwyster llythrennedd ariannol personol, Gwersi mewn Addysg Ariannol (LiFE) o Sefydliad Bancio a Chyllid Llundain. Mae'r fenter newydd hon yn bodoli diolch i gydweithrediad â Chymdeithas Adeiladu'r Principality a chymuned yr ysgol.

Mae'r cymhwyster yn grymuso myfyrwyr gyda'r offer i lywio cymhlethdodau eu cyllid personol. Mae cymhwyster LiFE wedi rhoi sylfaen gadarn i staff a myfyrwyr wneud penderfyniadau gwybodus a dechrau ar lwybr tuag at sefydlogrwydd ariannol. Cynhaliodd Headlands ein digwyddiad Gwrthod Mynd i'r Gwely Cymru yn 2023 hefyd, gyda thua 60 o bobl yn cysgu allan ac yn codi dros £13,000 ar gyfer Gweithredu dros Blant.

Gŵyl i bawb

Mae staff o'n gwasanaeth Gwyliau Byr Gorllewin Hyde bob amser eisiau mynd â phobl ifanc i wahanol lefydd, ond yn aml maent wedi canfod nad yw lleoliadau a gweithgareddau yn hygyrch iddynt. Ar ôl siarad ag un o'n pobl ifanc sy'n caru gwyliau a cherddoriaeth, edrychodd y tîm ar sut y gallai gefnogi pobl ifanc anabl i fwynhau gwyliau a gigs.

Cyflwynodd y tîm y syniad o ŵyl gynhwysol unigryw lle gallai pobl ifanc ag anghenion mynediad ddod iddi fel rhan o'n rhaglen Dragons' Den – ein cynllun sy'n helpu i ddatblygu ac ariannu prosiectau peilot, gan annog arloesedd ar draws y sefydliad.

Ac ar ôl ei gyflwyniad, roedd ein tîm yn llwyddiannus!

Yn dilyn nifer o rwystrau, gan gynnwys y pandemig a diwrnod poethaf y flwyddyn yn 2022, cynhaliwyd FestivAll o'r diwedd yn 2023.

Roedd yr haul yn tywynnu ac roedd y gerddoriaeth yn chwarae.



Plant yn mwynhau FestivAll

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gyda 350 o bobl yn bresennol, a 28 o wirfoddolwyr yn helpu gyda stiwardio a gweithgareddau.

Roedd FestivAll 2023 yn cynnwys band byw, cantorion a dawnswyr, pabell DJ ar thema, pabell gweithgareddau, peintio wyneb a phabell ymlacio i'r rheini sydd ag anghenion synhwyrdd. Fe'i cefnogwyd gyda lloriau addas ar gyfer cadeiriau olwyn o amgylch y safle a thoiledau a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl ac arbenigol.

Ar ôl blynyddoedd o fod eisiau mwy o bethau i'n pobl ifanc, roedd y llawenydd ar wynebau ein gwesteion a'r adborth a gawsom yn anhygoel. Ac rydyn ni'n falch iawn o fod wedi cael y cyllid i gynnal FestivAll arall yn 2024.



Diogelu

Mae amddiffyn a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n rhyngweithio â'n gwasanaethau ar flaen y gad ym mhopeth a wnawn. Mae'r Gwasanaeth Diogelu yn parhau i gefnogi ein gwasanaethau plant ar draws y pedair gwlad. O gynnal sesiynau holi ac ateb misol ac amrywiaeth o sesiynau hyfforddi, i ddarparu cymorth amserol pwrpasol, gall staff gwasanaethau plant gael gafael ar gyngor ac arweiniad pryd bynnag y bydd eu hangen arnynt.

Rydym yn adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau ynghylch materion diogelu pwysig bob blwyddyn. Mae'r holl waith hwn yn cael ei oruchwyllo gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, sy'n cefnogi ac yn herio ein trefniadau ar gyfer diogelu plant.

Bob chwarter, mae ein huwch reolwyr yn archwilio cofnodion ysgrifenedig plant a phobl ifanc (ffeiliau achos). Ar gyfer 2023/24, roedd tystiolaeth o oruchwyliaeth ymarfer neu oruchwyliaeth rheolwyr ar ymarfer ar gyfer dros 93% o ffeiliau achos.

Mae hwn yn ddangosydd pwysig i ni. Gallwn weld ein staff rheng flaen yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr llinell, a bod ein gwaith gyda phlant o safon gyson uchel.

“

Roedd hi mor braf dod ag R i ddigwyddiad lle gallai hi gael ei chynnwys ym mhopeth.

– Gwestai FestivAll

Dylanwadu ar bolisi i wella bywydau plant

Mae gan newid polisi y potensial i wella bywydau miliynau o blant. Dyna pam ei fod yn rhan hanfodol o'n gwaith, ochr yn ochr â'r gefnogaeth a'r gofal rydyn ni'n eu darparu yn ein gwasanaethau.

Rydyn ni'n manteisio i'r eithaf ar ein heffaith polisi drwy ganolbwyntio ar feysydd lle mae'r angen mwyaf, cyfle i ddylanwadu ar newid, a lle mae gan Gweithredu dros Blant dystiolaeth ac arbenigedd penodol a pherthnasol.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd ar draws ein sefydliad i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer newid, drwy fanteisio i'r eithaf ar ein data a'n gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau, a drwy wneud yn siŵr ein bod yn cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc yn ein holl waith.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cael llwyddiannau ar draws sawl maes gwaith allweddol.

Gwella lleisiau a phrofiadau plant sy'n cael eu camfanteisio'n droseddol

Y llynedd, fe wnaethom adeiladu ar ein blynyddoedd o brofiad yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael eu camfanteisio, a'r gwaith polisi rydym wedi'i wneud yng Nghymru a'r Alban, drwy lansio Adolygiad Jay o Blant sy'n cael eu Camfanteisio yn Droseddol. Cadeiriwyd yr adolygiad gan yr Athro Alexis Jay CBE gyda'r cyn Brif Gwnstabl Simon Bailey CBE a Charles Geekie KC, un o Ymddiriedolwyr Gweithredu dros Blant, ar y panel. Dros bedwar diwrnod o wrandawiadau ym mis Tachwedd 2023, clywodd y panel 25 awr o dystiolaeth gan dystion wyneb yn wyneb a thrwy fideo. Cafodd yr adolygiad dros 100,000 o eiriau o dystiolaeth gan 70 o sefydliadau neu

unigolion, gan gynnwys pobl ifanc, rhieni a mentoriaid sydd â phrofiad uniongyrchol o gamfanteisio. Cafodd yr adroddiad terfynol, *Shattered lives, stolen futures*, sylw eang yn y cyfryngau cenedlaethol.

Mae Adolygiad Jay wedi bod yn un o'r darnau mwyaf uchelgeisiol o waith polisi a gyflawnwyd gan Gweithredu dros Blant ac wedi ein helpu i ddechrau sgysiau hollbwysig ledled y DU, yn y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol, ar y newid polisi sydd ei angen i wella'r ymateb i gamfanteisio troseddol ar blant.

Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i gryfhau'r ymateb i gamfanteisio troseddol ar blant ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys cadeirio Is-grŵp Hyder Cymunedol Oed Cyfrifoldeb Troseddol, sy'n cefnogi'r Grŵp Cyngori i ystyried oedran cyfrifoldeb troseddol yn yr Alban. A bod yn rhan o'r Tasglu Troseddau Cyfundrefnol Difrifol yn yr Alban, sydd wedi canolbwyntio'n benodol ar gamfanteisio troseddol ar blant dros y flwyddyn ddiwethaf. Yng Ngogledd Iwerddon, fe wnaethom ddefnyddio Adolygiad Jay i ddechrau sgysiau ag Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol (MLA), Cyfiawnder Ieuencid a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch y gwaith y mae Gweithredu dros Blant yn ei wneud ar y mater hollbwysig hwn.



Yng Nghymru, rydym yn cyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Addysg a Phobl Ifanc 'Plant sydd ar yr Ymylon' sy'n edrych ar niwed i blant sy'n cael eu camfanteisio'n droseddol a phlant sydd ar goll.

Lle wrth y bwrdd cyn yr etholiad cyffredinol

Rydym wedi gweithio'n agos gyda phedair elusen blant flaenllaw arall – Barnardo's, NSPCC, Biwro Cenedlaethol y Plant, a Chymdeithas y Plant – i gyflwyno'r Ymgyrch Plant wrth y Bwrdd. Cyflwynodd yr ymgyrch yr achos i lunwyr polisiâu roi blaenoriaeth i blant yn yr etholiad cyffredinol.

Ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ymgyrch oedd bod plant sy'n cael eu magu yn y DU heddiw ac yfory yn fwy diogel, yn hapusach, yn iachach ac yn cael mynediad mwy cyfartal at gyfleoedd. Yr oedd yr etholiad cyffredinol yn gyfle allweddol i fynd i'r afael â'r materion brys sy'n wynebu babanod, plant a phobl ifanc heddiw.

“

Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd camfanteisio troseddol, ond doeddwn i ddim yn meddwl ei fod wedi digwydd i blant. Roeddwn i'n naïf. Dyma oedd profiad gwaethaf fy mywyd a phan ddigwyddodd, roeddwn i'n meddwl nad oedd ffordd o ddod yn ôl ohono.

– Cristi, mam i Sam a gafodd ei hecsbloetio.

Fe wnaethom gynnal dau ddigwyddiad yng nghynadleddau'r Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol yn 2023 – derbyniad ar y cyd a digwyddiad Parth Ieuencid. Daeth nifer dda i'r ddau, gyda'r Prif Weinidog bryd hynny, Rishi Sunak, yn ymddangos yn nigwyddiad Parth Ieuencid y Ceidwadwyr a Gweinidog yr Wrthblaid dros Blant a Theuluoedd, Helen Hayes AS, yn y ddau ddigwyddiad Llafur. Gwnaethom adeiladu ar y digwyddiadau hynny drwy gyhoeddi adroddiad polisi ym mis Tachwedd a lansio'r ymgyrch yn gyhoeddus ym mis Ionawr gyda digwyddiad galw heibio seneddol lle'r oedd 30 o bobl ifanc a 30 o ASau a chymheiriaid yn bresennol.

Drwy gydol ymgyrch yr etholiad cyffredinol, cafwyd taith Plant wrth y Bwrdd o amgylch etholaethau allweddol gan roi cyfle i ymgeiswyr ymgysylltu â phobl ifanc a chlywed negeseuon allweddol yr ymgyrch.

Gofal cymdeithasol i blant

Mae plentyn yn mynd i ofal yn y DU bob 15 munud⁶. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y rheini sydd mewn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, ac i wella ymyriadau cynnar i atal plant rhag gorfod mynd i ofal lle bo hynny'n bosibl. Y llynedd, fe wnaethom ymateb i strategaeth newydd llywodraeth y DU ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol i blant yn Lloegr – Stable Homes Built on Love.

Roeddem yn croesawu'r ymateb ond yn galw ar y llywodraeth i ymrwymo i fuddsoddi rhagor mewn ymyriadau cynnar, i gryfhau'r fframwaith cyfreithiol i sicrhau bod gwasanaethau ymyriadau cynnar yn cael eu blaenoriaethu, ac i weithio gyda'r sector gwirfoddol. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r llywodraeth i sicrhau bod y diwygiadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

⁶ Plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr gan gynnwys mabwysiadu, Blwyddyn adrodd 2023 – Explore education statistics – GOV.UK (explore-education-statistics.service.gov.uk). (golygydd)



I gefnogi'r gwaith hwnnw, ac ochr yn ochr â'r NSPCC, fe wnaethom gyhoeddi ymchwil unigryw a oedd yn edrych ar ymateb awdurdodau lleol i ailuno – lle mae plant a phobl ifanc mewn gofal yn mynd yn ôl i fyw gyda'u teuluoedd. Fe wnaethom gynnal digwyddiad lansio yn y senedd lle'r oedd dros 15 o awdurdodau lleol yn bresennol, yn ogystal â Gweinidog Plant a Theuluoedd yr Wrthblaid, a chyn Gadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Addysg ar y pryd.

Yng Ngogledd Iwerddon, fe wnaethom groesawu'r Comisiynydd Plant i'n Gwasanaeth Llety â Chymorth yn Rossore Grove. Cyfarfu'n uniongyrchol â phobl ifanc i glywed eu profiadau a rhannu rhai o'i brif flaenoriaethau yn ystod ei dymor fel Comisiynydd.

Ac yng Nghymru, fel aelodau o Fwrdd y Rhaglen, rydym wedi parhau i gefnogi'r ymgyrch i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Rydym yn falch o weld y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei gyflwyno i'r Senedd fis Mai eleni. Bydd hyn yn cyfyngu ar allu'r sector preifat i dynnu elw o amgylchedd gofal cymdeithasol plant gan ganolbwyntio yn lle hynny ar ddarparu'r nid-er-elw ac awdurdodau lleol yn gallu darparu gofal maeth, cartrefi plant a llety diogel.

Cymorth i deuluoedd

Y llynedd, gwnaethom barhau i dynnu sylw at yr heriau cyllido sy'n wynebu awdurdodau lleol a gwasanaethau plant drwy ein hadroddiad cyllido diweddaraf ar wasanaethau plant – *Well Worn Path*. Nododd yr adroddiad unwaith eto bwysigrwydd buddsoddi mewn gwasanaethau ymyriadau cynnar.

Cafodd ein hadroddiad a oedd yn edrych ar ganlyniadau addysgol plant a gafodd eu cyfeirio at ofal cymdeithasol plant sylw eang gan y cyfryngau a'r gwneuthurwyr polisi.

Yng Ngogledd Iwerddon, boom yn gweithio fel rhan o'r Reimagine Collective i ddarparu canlyniadau effaith cydlynol a phendant o'r Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Plant. Rydym yn cael ein cynrychioli ar waith parhaus y Bwrdd Diwygio ar gefnogi teuluoedd.

Yn yr Alban, boom yn gweithio gyda Chynghrair y Darparwyr Gofal a Chymorth yn yr Alban i gynnal cynhadledd – Whole Family Support: The Power of Prevention – Keeping the Promise for Children and Families Across Scotland. Daeth dros 150 o bobl i'r digwyddiad, ac fe wnaethom arddangos ein gwasanaeth yn Clackmannanshire drwy ddwy sesiwn gweithdy, oedd yn darparu astudiaethau achos cymorth i deuluoedd sydd wedi'u cynnwys ym mhecyn pob cynadleddwr.

Cafodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ei hadfer ym mis Chwefror 2024. Yn ystod y ddwy flynedd heb lywodraeth ddatganoledig, gwnaethom barhau i weithio gyda swyddogion etholedig a rhanddeiliaid eraill i eirioli dros blant, pobl ifanc a theuluoedd ynghylch cymorth cynnar, tldi, iechyd meddwl a digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Boom yn ymwneud ag Adolygiad Jones o Ofal Cymdeithasol Plant ac fe wnaethom greu grŵp ar y cyd â phartneriaid elusennol i gryfhau llais y sector gwirfoddol a chymunedol, yn ogystal â llais pobl ifanc wrth ail-ddylunio ein system gofal cymdeithasol i blant. Rydyn ni nawr yn ymgysylltu ag adrannau'r llywodraeth, pwyllgorau a gweinidogion newydd ynghylch ein blaenoriaethau polisi ac rydyn ni'n gobeithio gweld newid cadarnhaol i'r teuluoedd, y plant a'r bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi.

Cymryd rhan

Rydyn ni wedi parhau i ehangu lleisiau pobl ifanc ar draws ein sefydliad ac yn allanol, drwy gyflwyno Nothing About Me, Without Me – ein strategaeth cyfranogiad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cynnwys pobl ifanc mewn strwythurau llywodraethu, ymgyrchoedd polisi, digwyddiadau a chodi arian. Dyma rai enghreifftiau:

Cyfarfu aelodau'r Bwrdd Llysgenhadon Ifanc â Thywysoges Cymru ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd, gan gyfweld ag enwogion a gwirfoddoli yn y Gala dan y Sêr.

Roeddent hefyd yn ganolog i'r broses o recriwtio ein Prif Weithredwr, Ymddiriedolwr, a nifer o swyddi eraill. Mae ein Llysgenhadon Ifanc wedi bod yn Ddreigiau Ifanc, fel rhan o'n menter Dragons' Den yn ogystal â beirniadu Gwobrau Stephenson eleni.

Mae'r grŵp hefyd wedi bod yn lleisiau allweddol yn allanol ar gyfer Gweithredu dros Blant. Roeddent yn bresennol yn lansiad Plant wrth y Bwrdd, ein hymgyrch etholiad cyffredinol ac fe wnaethant ymddangos yn y cyfryngau yn siarad am eu profiadau ym maes gofal.

Yn Lloegr, mae plant bellach yn arwain cyfarfodydd mewn cartref preswyl – gan osod agendâu a hwyluso trafodaethau yn wythnosol.

Yn yr Alban, rydym wedi buddsoddi mewn Hyrwyddwyr Addewid Staff. Mae'r rhwydwaith hwn yn cefnogi pob cydweithiwr i ddatblygu a goruchwyllo'r systemau, y prosesau, y diwylliant a'r arferion sydd ar waith i gadw'r 'addewid' i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi, yn gofalu amdanynt ac yn eu caru.



Pobl ifanc yn cwrdd â'r Gweinidog Plant a Theuluoedd, David Johnston, fel rhan o'r ymgyrch Plant wrth y Bwrdd ym mis Ionawr 2024.

Yng Nghymru, yn Nhŷ Arth, mae pobl ifanc yn siapio eu hamgylchedd, gan addurno'r ystafell fyw gyda thema arth, gan adlewyrchu enw'r tŷ. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn hybu hunan-barch, yn meithrin cymuned gefnogol ac yn gwella lles emosiynol. Mae cymryd rhan bellach yn y gwaith o addurno mannau eraill yn rhoi balchder a chyfrifoldeb, gan greu mannau personol, diogel a chynnes sy'n gwella eu hymdeimlad o berthyn.

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi defnyddio cronfeydd rhoddion cymynrodd i ddyrannu oriau ychwanegol i'n swyddi Cyfryngau a Pholisi er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar ymgysylltu â phobl ifanc i gasglu data i gefnogi ein gwaith polisi.



Sarah o Gweithredu dros Blant a Darryl yn San Steffan yn lansiad yr ymgyrch Plant wrth y Bwrdd.

Codi arian a chodi ymwybyddiaeth

Ein cefnogwyr anhygoel yw'r rheswm rydyn ni'n dal i ddarparu cymorth hanfodol i blant a theuluoedd agored i niwed, 155 o flynyddoedd ar ôl i ni gael ein sefydlu.

O werthu cacennau a phlymio i'r awyr, i nosweithiau cysgu allan tîm a rhedeg Marathon Llundain. Heb haelioni, angerdd a chariad diflino ein holl gefnogwyr – o'r gymuned Fethodistaidd ymroddedig i'n partneriaid corfforaethol diweddaraf – ni allem fod yno i'r plant agored i niwed sydd wir ein hangen.

Diolch i'n teulu o godwyr arian, cefnogwyr, gwirfoddolwyr a staff, fe wnaethon ni godi £17.2 miliwn mewn incwm gwirfoddol yn 2023/24. Rydyn ni'n gweld y gwahaniaeth mae'r arian hwn yn ei wneud bob dydd – ac rydyn ni mor falch a diolchgar am flwyddyn arall o gefnogaeth ac ymroddiad aruthrol.

Billie Shepherd
gyda'i haddurn

Yn 2023/24 fe wnaethom godi

£17.2 miliwn

diolch i'n teulu o godwyr arian,
cefnogwyr, gwirfoddolwyr a staff.



Eich cefnogaeth hael

Santa Cyfrinachol

Cododd ein hymgyrch Nadolig flynyddol, Santa Cyfrinachol, dros £1.4 miliwn gan dros 30,000 o gefnogwyr hael.

Rhoddodd Santa Cyfrinachol bron i 300 miliwn o gyfleoedd gweld (OTS), gan helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith i blant. Cafodd hyn ei sbarduno gan ein hysbyseb teledu, gan gyrraedd cynulleidfau enfawr yn ystod egwyliau hysbysebu ar This Morning ar ITV a ffilmiau Nadolig Channel 5.



Fe wnaethon ni lansio dau addurn – un wedi'i ddylunio gan ofalwr ifanc a'r llall gan gefnogwr enwog, Billie Shepherd. Cafodd y ddau addurn lawer o sylw yn y cyfryngau gydag enwogion yn eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys Billie sydd â dros 2.7 miliwn o ddilynwyr). Roedd hyn yn helpu'r ymgyrch i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Arweiniodd ein proffil uwch yn ystod cyfnod y Nadolig at gefnogaeth gorfforaethol newydd. Rhoddodd Frankie a Benny £10,000 yn ogystal â chynnal ymgyrch farchnata aml-sianel, gan gynnwys yn y siop, cysylltiadau cyhoeddus, e-bost, cynnwys dylanwadwyr a chyfryngau cymdeithasol i dynnu mwy o sylw at y Santa Cyfrinachol. Dyma rai o'r prif uchafbwyntiau Cynnwys dylanwadwyr TikTok gan Daddy May (sydd ag 1.8 miliwn o ddilynwyr ac mae ei bost wedi'i weld gan 114,000 o bobl) a sylw yn y cyfryngau yn Hello a Mail Online.

Cynhaliwyd stondin marchnad enwog Santa Cyfrinachol yn London Bridge a oedd nid yn unig yn cael sylw gan y cyfryngau, ond fe welodd Clwb Rebel Reel Cine hi ac yna dangos ffilm Nadolig a chynnal raffl unigryw i godi arian.



Harry Redknapp,
Larry Lamb,
Alex Jones,
Luca Bish a
Kelsey Parker



Alex Jones, Derek Chisora

Kelsey Parker
a Louise Boyce

Boycott Your Bed

Ddydd Gwener 6 Hydref 2023, fe wnaeth dros 700 o arweinwyr busnes a'u timau wynebu'r elfennau mewn lleoliadau ledled y DU, i gymryd rhan yn ein sesiwn cysgu allan genedlaethol, Boycott Your Bed. Roedd y bobl a oedd yn cysgu hefyd yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau codi arian yn y misoedd a oedd yn arwain at y noson ei hun.

Y llynedd, fe wnaethom groesawu Lenovo fel ein noddwr cenedlaethol cyntaf ar gyfer y digwyddiad hwn, sydd bellach yn cael ei gynnal am y 27ain tro. Dywedodd Philip Oldham, Cyfarwyddwr Marchnata, Lenovo UK ac Iwerddon:

"I'n tîm yn Lenovo, mae'n un noson o anwybyddu ein gwelyau, ond i gynifer o bobl, bydd yr arian a godon ni ar y noson yn helpu i leddfu'r baich i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rydyn ni'n hynod falch o fod wedi cyfrannu'n gorfforol ac yn ariannol i'r digwyddiad blynyddol hwn ac rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau â'n cefnogaeth i Gweithredu dros Blant er mwyn iddyn nhw allu sicrhau bod llawer o blant yn cael y plentynod hapus a diogel sydd ei angen arny'n nhw."

Cymynroddion

Rydyn ni mor ddiolchgar ac wedi cael ein hysbrydoli gan bob cefnogwr sydd wedi rhoi rhodd yn eu hewyllys i Gweithredu dros Blant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i haelioni aruthrol ychydig dros 200 o gefnogwyr, mae dros draean o'n hincwm wedi cael ei godi drwy roddion mewn ewyllysiau.

Mae rhoddion mewn ewyllysiau yn hanfodol i Gweithredu dros Blant ddarparu dyfodol mwy disglair i lawer o blant agored i niwed am flynyddoedd i ddod. Rydyn ni'n parhau i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd anhygoel hon o roi, er mwyn i genedlaethau'r dyfodol o gefnogwyr allu creu eu gwaddol parhaol eu hunain.

Digwyddiadau codi arian

Mae ein calendr prysur o ddigwyddiadau codi arian yn rhoi cyfle i'n cefnogwyr, ein partneriaid, a llawer mwy, fwynhau profiadau eithriadol, gan glywed straeon go iawn gan y bobl ifanc rydyn ni wedi helpu i'w cefnogi. Ac ar ben hynny, rydyn ni'n codi arian hanfodol i helpu mwy o blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y DU.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi dathlu'r menywod ysbrydoledig yn ein rhwydweithiau ac wedi clywed gan bobl chwaraeon sy'n cyfleu hynny. Rydyn ni wedi croesawu timau i frwydro i ennill tlysau enwog, ar y cwrs golff ac mewn rowndiau cwis hynod gystadleuol. Rydyn ni wedi cynnal seremonïau gwobrwy i dathlu pobl anhygoel o bob rhan o deulu Gweithredu dros Blant. Rydyn ni wedi arddangos sioeau ffasiwn haute couture ac wedi cynnal llawer o sesiynau cysgu dan y sêr. I gyd er mwyn codi arian i Gweithredu dros Blant.

.....
2,500 o westeion

mewn digwyddiadau ym mhob un o'r pedair gwlad.



Codi arian ledled y DU

Mae'r gefnogaeth a gawn gan gymunedau lleol, unigolion sy'n rhoi rhoddion i'n hapeliadau a chefnogwyr hirdymor yn dal i'n synnu.

O'n cyfranogwyr ymroddedig sy'n cymryd rhan ym Marathon Llundain TCS, Kiltwalk a'r Great North Run, i'n cymuned newydd sbon o gefnogwyr brwd a gymerodd ran yn ein Her 29 Fatima a gynhelir am y tro cyntaf erioed, neidiau parasiwt. Mae pawb sy'n codi arian yn ein helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau plant agored i niwed.

Diolch o galon i'n rhwydwaith o unigolion, grwpiau a Sgwadiâu Gweithredu sy'n parhau i feddwl am ffyrdd arloesol a llawn dychymyg o gefnogi ein gwaith.

Rhan o deulu'r Methodistiaid

Mae ein cefnogwyr Methodistiaidd ysbrydoledig yn parhau i ddarparu cefnogaeth sylweddol drwy godi arian, ymgyrchu a gwirfoddoli. Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd heriol, maen nhw wedi cynnal llawer o weithgareddau codi arian traddodiadol (fel Bocsys Casglu o Gartref) ar yr un pryd â chefnogi ein prif ymgyrchoedd fel Santa Cyfrinachol adeg y Nadolig.

Ym mis Gorffennaf 2023, cafodd ein Prif Weithredwr Paul Carberry a chydweithwyr eraill dderbyniad cynnes yn y Gynhadledd Fethodistaidd, lle siaradodd am ein gwaith. Dim ond un o'r digwyddiadau Methodistiaidd y gwnaethom gymryd rhan ynddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd hyn. Mae'r Eglwys wedi ymrwymo i neilltuo gwaith ac adnoddau sylweddol i helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb dros y blynyddoedd nesaf. Rydyn ni'n diolch iddyn nhw am bopeth maen nhw'n ei wneud dros blant a theuluoedd.

Creu ffyrdd newydd o godi arian

Starry Night Gala

Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom groesawu dros 300 o westeion i'n Starry Night Gala gyntaf erioed, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gelfyddydau Battersea rhestredig Gradd II, yn Llundain. Gyda gwesteion arbennig yn cynnwys Kate Thornton ac Alison Hammond, roedd hi'n noson anhygoel o theatr ac eiliadau gwefreiddiol. Mae pobl ifanc o Wasanaeth Cyflogadwyedd Gweithredu dros Blant yn yr Alban yn rhoi eu sgiliau lletygarwch ar waith, gan gefnogi ein tîm digwyddiadau drwy helpu i gyflwyno llawer o uchafbwyntiau'r noson.

Fe wnaeth ein prif berfformiwr, Charlotte Church, ymgymryd â rôl hyfforddwr lleisiol ar gyfer ein côr Young Carers Aloud, gan fentora plant a phobl ifanc yng Nghymru i berfformio hyd eithaf eu gallu. Fe wnaethon nhw syfrdanu'r gynulleidfa gyda'u perfformiad arbennig, a'r diwrnod canlynol, ymunodd y côr ag Alison Hammond a Dermot O'Leary i berfformio ar This Morning ar ITV.

Roedd y digwyddiad yn noson i'w chofio. O'r eiliad y camodd y gwesteion ar y carped coch, cawsant eu hysgubo i fyd o hud a lledrith, i ddathlu pa mor bell y mae Gweithredu dros Blant wedi dod ers i ni ddechrau a'n helpu ni i barhau â'n gwaith sy'n newid bywydau. Llwyddodd y digwyddiad i godi £154,000 i helpu i roi'r plentynod hapus a diogel y mae mwy o blant yn ei haeddu.



Côr Young Carers Aloud a Laura Jones, arweinydd côr ac ymarferydd pobl ifanc.



Loteri Wythnosol Gweithredu dros Blant

Ym mis Medi 2023, fe wnaethom lansio ffordd newydd o gefnogi Gweithredu dros Blant, gan dreialu loteri wythnosol. Mae'n rhoi ffordd hwyliog a hygyrch i bobl gefnogi ein gwaith yn rheolaidd. Rydyn ni'n parhau i brofi hyn drwy sianeli digidol ar raddfa fach. Yn 2024 byddwn yn gwerthuso a yw hyn yn fath o godi arian y gallwn ei ddatblygu ymhellach.

Cydymffurfio a chwynion

Rydym wedi cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian ac yn dilyn ei God Ymarfer a'i Addewid. Rydym yn cynnal safonau uchel ar gyfer codi arian gan gynnwys bod yn glir, yn agored ac yn onest gyda chefnogwyr, a pharchu eu preifatrwydd a'u dewisiadau cyfathrebu.

Yn 2023/24 cawsom 112 o gwynion am ein prosesau codi arian. Nid oedd angen uwchgyfeirio unrhyw un o'r rhain i'r rheoleiddiwr. Deliwed â hwy yn unol â'n Trefn Gwyno gyda Chodi Arian.

Charlotte Church
yn y Starry Night Gala

Pŵer partneriaethau

Mae ein partneriaid corfforaethol yn ein helpu i godi arian hanfodol i gefnogi ein gwaith. Ond maen nhw hefyd yn rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i gefnogi ein gwasanaethau. Allwn ni ddim gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud hebddyn nhw.

Rydyn ni'n falch iawn o fod wedi lansio partneriaethau newydd y llynedd gyda Scottish Friendly, y Sefydliad Siartredig Tai, Atlas Security a Tyne Tunnels. Ac rydyn ni mor ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus rydyn ni'n ei chael gan gwmnïau ledled y DU, gan gynnwys Herbalife, Junior Adventures Group, Cymdeithas Dai Sarnia, The Childcare Company, Hope for a Child ac Amazon Association, The Childcare Company, Hope for a Child and Amazon.



Yn 2023, ariannodd **Arcadis** lansiad ein rhaglen Breaking the Cycle newydd yn Cumbria, ynghyd â chwnselydd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin domestig i oresgyn eu trawma. Diolch i Arcadis, mae 28 o blant bellach wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaeth a byddant yn cael eu cefnogi i ddysgu'r ymwybyddiaeth, yr hyder, y gwynwch a'r sgiliau ymdopi sydd eu hangen arnynt.



Mae ein partneriaeth â **Dell Technologies**, sydd bellach wedi para 14 o flynyddoedd, yn parhau i wneud gwahaniaeth trawsnewidiol i fywydau plant a phobl ifanc ledled y DU. Drwy'r rhaglen Inspire IT, mae ein partneriaeth yn helpu i bontio'r bwlch digidol drwy helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael gafael ar y dechnoleg nad oes ganddyn nhw fynediad ati fel arall. Mae ein partneriaeth hefyd yn helpu plant a phobl ifanc i ddysgu'r sgiliau digidol sy'n eu helpu i gael gafael ar gyfleoedd addysg a chyflogaeth. Ar hyn o bryd mae Inspire IT yn gweithredu mewn 44 o wasanaethau Gweithredu dros Blant ledled y DU.



Yn 2023, cyflwynodd Gweithredu dros Blant a CMC Markets Gronfa Addysg a Chyfoethogi CMC Markets am y drydedd flwyddyn. Drwy ddarparu pecyn cymorth wedi'i deilwra (gan gynnwys tiwtora, diwrnodau allan addysgol, gweithgareddau a phrofiadau cyfoethog), cefnogodd y gronfa 324 o blant a phobl ifanc agored i niwed yn Llundain drwy 1,239 o grantiau yn 2023. Roedd gweithwyr CMC Markets hefyd yn cefnogi Gweithredu dros Blant drwy wirfoddoli a chodi arian, yn enwedig gyda Boycott your Bed lle cododd eu tîm dros £21,000 – gan ddod yn dîm codi arian a wnaeth berfformio orau.



Starling Bank

Mae ein partneriaeth â **Starling Bank**, sydd bellach yn ei hail flwyddyn, yn parhau i gynnig achubiaeth hanfodol i blant a theuluoedd agored i niwed ar adeg rydyn ni'n gwybod sy'n gythryblus iawn iddyn nhw. Maen nhw'n ein helpu ni i ddatblygu cynnwys newydd sbon ar ein gwasanaeth Parent Talk i gefnogi teuluoedd i reoli eu harian a chael sgysiau am arian. Mae hynny'n ogystal â noddi ymarferydd cefnogi teuluoedd arbenigol i weithio'n uniongyrchol gyda rhieni sydd mewn angen difrifol. Y llynedd, cefnogodd Starling Bank 6,034 o blant a theuluoedd agored i niwed ar-lein.



Turner & Townsend

Mae ein partneriaeth gyda **Turner & Townsend** yn parhau i chwalu'r rhwystrau i addysg i blant a phobl ifanc ledled y DU. Mae Cronfa Addysg Turner & Townsend yn cefnogi teuluoedd i dalu am gostau hanfodion sylfaenol yr ysgol megis gwisg ysgol, esgidiau a chotiau gaeaf. Yn 2023, cyflwynodd ein partneriaeth ei grant Cronfa Addysg am y 10,000fed tro. Mae Turner & Townsend hefyd wedi parhau i gynnig cymorth pro bono hanfodol ar ddatblygu cartrefi preswyl newydd i blant ledled y DU, ac yn fwyaf diweddar ar ein gwaith cynaliadwyedd.

JOHN LEWIS PARTNERSHIP

Mae Gweithredu dros Blant wedi parhau i weithio ochr yn ochr â **Phartneriaeth John Lewis** ar Building Happier Futures – eu hymrwymiad hirdymor i bobl ifanc mewn gofal a sydd â phrofiad o ofal.

Ers i ni lansio yn 2022, mae cyfanswm y rhoddion a addawyd ar gyfer Gweithredu dros Blant bellach dros £1 miliwn.

O ganlyniad, mae tair rhaglen anhygoel gan Gweithredu dros Blant yn cael eu hariannu: Wrap, Transition Workers ac UpLift. Yn 2023, roedd y rhain yn cefnogi 213 o blant, pobl ifanc, gofalcwyr maeth ac aelodau o'r teulu. Fel Miracle, sy'n 20 oed.

Ers ei geni, roedd Miracle i mewn ac allan o'r system ofal. Heb sefydlogrwydd yn ei bywyd, roedd hi'n cael trafferth gyda'i hiechyd meddwl. Gyda chefnogaeth Catherine, ei Gweithiwr Trosglwyddo, mae Miracle wedi ffynnu. Mae hi bellach yn Llysgennad Ifanc Gweithredu dros Blant, ac yn astudio yn y brifysgol.



Dywedodd Miracle wrthym: ***“Mae Gweithredu dros Blant yn newid bywydau – maen nhw'n poeni am y plant maen nhw'n gweithio gyda nhw ac maen nhw bob amser yn ceisio meddwl yn greadigol am ffyrdd newydd o gefnogi pobl ifanc. Mae sicrhau bod ein lleisiau'n cael eu clywed yn deimlad anhygoel.”***

Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom ddathlu pen-blwydd cyntaf Building Happier Futures. Rhannodd Partneriaeth John Lewis eu hadroddiad effaith rhaglen cyntaf, a lansiodd frand ffordd o fyw newydd Made x Care, a oedd yn cynnwys cynnyrch wedi'i ddylunio gan bobl sydd â phrofiad o ofal.

Ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliodd Partneriaeth John Lewis Benwythnos Codi Arian Building Happier Futures ar gyfer cwsmeriaid yn siopau John Lewis a Waitrose.

Roedd Partneriaeth John Lewis hefyd yn ein cefnogi yn y ffyrdd canlynol:

- Partneriaid yn codi arian drwy gymryd rhan yn Gwrthod Mynd i'r Gwely, cynnal diwrnodau hwyl yng Nghlwb Odney, a thrwy ddigwyddiadau chwaraeon.
- Partneriaid yn gwirfoddoli 50 diwrnod o'u hamser gyda'i gilydd.
- Secondiad Ymddiriedolaeth Jiwbilî Aur yn Uned Mamau a Babanod CEF Styal.
- Cymwysterau llythrennedd data wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer 24 o weithwyr Gweithredu dros Blant.
- 85 o blant a gofalcwyr yn mwynhau Groto Siôn Corn yn siopau John Lewis.
- Ac mae Community Matters yn rhoi rhoddion a theganau i wasanaethau lleol.



Rydyn ni'n falch iawn o fod wedi bod mewn partneriaeth ag Ella's Kitchen ers 2022, gan gefnogi eu hymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn bach yn tyfu'n hapus, yn iach a byth yn llwglyd.

Dros y Nadolig 2023, lansiodd Ella's Kitchen ymgyrch hyrwyddo cynnyrch ar eu

cynnyrch cyfyngedig melty sticks india-corn a moron Rudolph. Ar gael ar-lein ac mewn siopau ledled y DU, cododd y cynnyrch



£89,000. Ar ben hynny, rhannodd Ella's Kitchen ein hymgyrch Santa Cyfrinachol gyda'u cwsmeriaid a'u gweithwyr, a lansiodd rhodd bancio ar-lein ddewisol wrth dalu i godi arian ychwanegol.

Defnyddiodd Ella's Kitchen y cyfnod hwn hefyd i gynnwys ASau ar draws pleidiau gwleidyddol yn y Santa Cyfrinachol a'u manifesto '5 ar gyfer plant dan 5 oed', sy'n amlinellu pum cais i'r llywodraeth roi dyfodol plant bach yn gyntaf, yn benodol, i dynnu sylw at ein cais ar y cyd i roi terfyn ar dlodi plant erbyn 2040.

Galluogi ein gwaith

Ein pobl

Un o'n nodau strategol yw denu, datblygu a chadw staff a gwirfoddolwyr gwych.

O ddiwedd mis Mawrth 2024 ymlaen, mae 4,394 o bobl yn cael eu cyflogi gan Gweithredu dros Blant ac mae gennym 561 o wirfoddolwyr, gyda phob un ohonynt yn hanfodol i'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

Mae gwella profiadau ein staff yn dechrau gyda'n harweinwyr yn creu diwylliant cadarnhaol lle mae lles ein staff yn cael ei flaenoriaethu, a datblygiad a thwf yn cael ei annog a'i hyrwyddo.

Mae ein polisiâu pobl, a sut rydym yn eu gwreiddio, yn seiliedig ar arferion gorau a gwybodaeth gan ein staff.

Diwylliant, lles a dysgu

Mae'r amgylchedd allanol a mewnol sy'n newid drwy'r amser, costau byw a datblygu meysydd gwaith newydd yn rhoi ein diwylliant ar brawf. Dyna pam rydyn ni'n gwneud mwy byth i wrando ar ein pobl.

Ochr yn ochr â'n harolygon cryno, ein harolwg staff, ein harolygon i bobl sy'n gadael, ein harolygon Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP) a'n harolygon Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr (IIV) ac adborth gan ein rhwydweithiau staff a'n Hundebau Llafur, fe wnaethom ofyn i grŵp sy'n cynrychioli ein pobl beth maen nhw'n ei werthfawrogi am weithio i Gweithredu dros Blant. Ar sail eu hadborth, rydym wedi gwneud yn siŵr bod ein polisiâu gweithio'n hyblyg yn diwallu anghenion ein pobl, bod dysgu a datblygu yn rhan

annatod o bob cam o'n gyrfaodd, bod gennym arferion llesiant cadarn a hygyrch, a'n bod yn parhau i gynnig ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

Rydym hefyd yn parhau i feithrin diwylliant a meddylfryd dysgu, drwy gynnig amrywiaeth ehangach o raglenni dysgu a buddsoddi mewn dulliau dysgu a ddarperir gan gyflenwyr allanol. Roedd ein buddsoddiad hyfforddi yn fwy na £2 filiwn gyda gwariant cyfartalog o tua £480 fesul gweithiwr. A gwnaethom gymeradwyo 268 o geisiadau dysgu ychwanegol ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol.

Mewn ymateb i adborth, rydyn ni wedi gweithio'n galetach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i hyrwyddo datblygiad gyrfa, annog ein rheolwyr pobl i ystyried talent o adrannau eraill ar draws y sefydliad. Ar hyn o bryd, mae ychydig dros 22% o'n swyddi'n cael eu llenwi'n fewnol.

Fe wnaethom gwblhau ein gwiriad blynyddol gydag IIP ym mis Ionawr 2024, ar ôl ennill statws Arian yn 2022, gan ganolbwyntio ar reoli newid a lles. Roedd yr adborth gan y rhan fwyaf o'r staff yn gadarnhaol ac yn awgrymu bod y dull o reoli newid wedi gwella ers ein proses ailstrwythuro ddiwethaf.

Disgrifiodd y rhan fwyaf o bobl y cymorth lles a ddarperir gan Gweithredu dros Blant yn gadarnhaol, a dywedodd ei fod wedi gwella. Roeddem wrth ein bodd ein bod wedi cyrraedd y rownd derfynol ar gyfer gwobr Cyflogwr y Flwyddyn y DU a gwobr y Tîm Gorau o ran Pobl yng Ngwobrau Buddsoddwyr mewn Pobl 2023.

“

*I'n tîm, mae'r cymorth
lles yn anhygoel.*

– Aelod o staff



Ein Tîm Pobl yn dathlu ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl Arian ar ddiwrnod datblygu tîm.

“Rwy'n credu bod y sefydliad yn gwrando ar bobl ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud pethau'n iawn. Mae'n ymddangos ei fod yn gydweithredol gyda llawer o gefnogaeth. Dwi'n meddwl ei fod yn newid braf.”

– Aelod o staff.

Rydym hefyd wedi ennill gwobr Cyflogwr Mawr Gofal Plant y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Paragon Skills 2023, sy'n dathlu rhagoriaeth eithriadol ymysg dysgwyr a chyflogwyr.

Mae Paragon Skills yn un o ddarparwyr prentisiaethau Gweithredu dros Blant, sy'n gweithio gyda channoedd o sefydliadau bob blwyddyn i ddarparu cymwysterau.

Gwobrwyo a chydabod

Rydyn ni'n gwybod pa mor hanfodol yw cydnabod y sgil a'r angerdd sylweddol sydd gan ein staff o ran eu rolau. Rhan fawr o'r ymrwymiad hwn yw parhau i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol – cyfradd cyflog y DU yn seiliedig ar gostau byw. Rydym hefyd yn meincodi pob cyflog yn allanol i wneud yn siŵr bod ein hiawndal yn deg, yn gystadleuol ac yn adlewyrchu ein statws elusenol



Amrywiaeth a chynhwysiant – cymryd camau cadarnhaol

Er mwyn cefnogi ein hymdrechion i chwalo rhwystrau i ddilyniant a datblygiad ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn yr elusen, gwnaethom weithredu'n gadarnhaol a chynnig dau gynllun datblygu i gefnogi staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac anabl: rhaglen Datblygu a chynllun peilot Mentora Gyfatebol.

Fe wnaethom neilltuo 50% o leoedd yn y rhaglen Datblygu Potensial ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a/neu staff anabl. Bu'r broses ymgeisio mor llwyddiannus fel ein bod yn gallu cynnig ail garfan i ymgeiswyr yn 2023/24.

Fe wnaethom lansio'r rhaglen Fentora Gyfatebol ym mis Medi 2023, lle cafodd staff ac uwch arweinwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eu paru i feithrin perthnasoedd mentora ar y cyd sy'n hyrwyddo dysgu ar y cyd a hunanddatblygiad ar yr un pryd â meithrin diwylliant mwy cynhwysol a gwrth-hiliol yn Gweithredu dros Blant.

Mae'r ddwy fenter yn cael gwerthusiadau rheolaidd ac ar ôl iddynt ddod i ben yn 2024, byddwn yn mesur llwyddiant ar sail amcanion cyffredinol ac unigol.

Ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Ein bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau, o 5 Ebrill 2023 ymlaen, yw 5.95% (cynnydd o 4.43% yn 2022). Er bod ein bwlch cyflog cyffredinol rhwng y rhywiau yn uwch na'r llynedd, mae Gwasanaethau Plant a Chyfathrebu a Pholisi Codi Arian (FCP) yn parhau o fewn ein hystod darged (o 5% y naill ochr i fwllch cyflog o 0%) ac mae Gwasanaethau Plant yr Alban yn parhau i sicrhau bwlch cyflog o 0% rhwng y rhywiau. Rydyn ni wedi gweld gwelliant o flwyddyn i flwyddyn yn y ffigurau Cyllid a Thechnoleg, ac rydyn ni wedi cynllunio camau gweithredu ar gyfer y 12 mis nesaf. Gallwch ddarllen mwy am ein **bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein hadroddiad ar gyfer 2023**.

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Wrth i ni ddechrau ar ein trydedd flwyddyn o statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, rydyn ni'n cymryd camau i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial yn Gweithredu dros Blant.

Mae'r cynllun Hyderus o ran Anabledd yn annog cyflogwyr i wella'r ffordd y maent yn recriwtio, yn cadw ac yn datblygu pobl ag anabledd. Fe wnaethom gwblhau'r hunanasesiad Hyderus o ran Anabledd yn 2022, ac rydym wedi parhau i roi'r holl gamau gweithredu craidd ar waith. Mae gweithredu cadarnhaol yn parhau yn ein proses recriwtio, ac mae hyfforddiant recriwtio cynhwysol wedi cael ei gyflwyno ar gyfer yr holl reolwyr sy'n recriwtio.

Buddsoddi yn ein gwirfoddolwyr



Mae 561 o wirfoddolwyr wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i gefnogi ein nodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhai yn mynd ati'n frwd i gefnogi gwasanaethau plant, gan rannu eu

sgiliau mentora a darparu gofal, mae rhai yn ein cefnogi i godi arian y mae mawr ei angen, ac mae eraill yn gwirfoddoli eu sgiliau proffesiynol i'n helpu gyda gweithgareddau a phrosiectau pwysig.

Ym mis Ionawr 2024, cawsom ein hailachredu gyda'r wobwr Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IIV) am arferion da ym maes rheoli, cynnwys a chynnwys gwirfoddolwyr.

Gwella effeithlonrwydd

Er mwyn cynyddu'r effaith y gallwn ei chael ar blant a phobl ifanc agored i niwed, rydym yn gweithio'n barhaus i wella ein heffeithlonrwydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar dri phrif faes.

Buddsoddi yn ein systemau

Rydym ni wedi adolygu a diweddarau ein strategaeth dechnoleg yn ystod y flwyddyn, i wneud yn siŵr bod ein dull gweithredu'n adlewyrchu'r amgylchedd allanol sy'n newid yn gyflym a chymhlethdodau ein gweithrediadau. Yn ogystal â darparu'r systemau sy'n sail i'r gweithrediadau hynny, mae angen i ni hefyd ddarparu'r dechnoleg angenrheidiol i wneud i'n cartrefi preswyl deimlo fel cartref i'r bobl ifanc sy'n byw ynddynt.

Ffocws dros y flwyddyn fu parhau i weithredu ein system gyllid ac Adnoddau Dynol Oracle newydd, y prosiect systemau mwyaf y mae'r sefydliad erioed wedi ymgymryd ag ef. Pan fydd yn mynd yn fyw yn y flwyddyn i ddod, bydd yn gwneud ein systemau'n llawer symlach, yn gwella profiad y defnyddiwr ac yn rhoi adroddiadau amser real i ni er mwyn helpu i wneud y gorau o'r ffordd rydyn ni'n gweithio.

Rydym ni hefyd wedi cwblhau'r gwaith o gyflwyno system cofnodi canlyniadau newydd ar gyfer ein cartrefi plant. Mae hyn yn ein helpu i ddeall ac adrodd yn gywir ar yr effaith rydyn ni'n ei chael ar y plant rydyn ni'n gofalu amdanynt nhw, ac mae'n elfen hanfodol o ran datblygu ansawdd ein gwasanaethau. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn dechrau ar waith archwilio i adolygu'r systemau cofnodi canlyniadau rydym yn eu defnyddio ar draws ein gwasanaethau eraill, gyda'r nod o gyflawni rhagor o welliannau yn y dyfodol.



Optimeiddio ein hystâd eiddo

Er bod llawer o'n hystâd yn cael ei defnyddio'n uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, rydym hefyd yn berchen ar nifer o eiddo hŷn ac eiddo etifeddol - ac nid yw pob un o'r rhain yn addas at y diben hwn. Ar ôl adolygiad llawn o'n hystad, rydyn ni wrthi'n gwerthu ac yn ail-bwrpasu llawer o'r eiddo nad ydyn ni'n ei ddefnyddio. Mae hyn yn caniatáu i ni ail-fuddsoddi mewn eiddo y gallwn ei ddefnyddio i gefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig drwy ein rhaglen twf preswyl sy'n darparu cartrefi newydd i blant mewn gofal.

Yn ystod y flwyddyn, rydym ni hefyd wedi cwblhau rhaglen sylweddol o waith adfer ar draws ein hystad, gan wneud yn siŵr bod ein holl eiddo yn cyd-fynd â safonau'r sector ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Gwneud yn siŵr bod gennym ni'r bobl iawn yn y llefydd iawn

Rydym ni eisiau i Gweithredu dros Blant ddod yn sefydliad sy'n fwy ymatebol, ystwyth a medrus i reoli heriau allanol parhaus, er mwyn i ni allu parhau yn un o brif elusennau plant y DU. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein rhaglen Sefydliad Delfrydol wedi bod yn adolygu ein strwythurau a'n prosesau cymorth mewnol, a byddwn yn rhoi newidiadau ar waith dros y flwyddyn nesaf. Rydyn ni'n gwybod bod angen y cydbwysedd iawn o ran sgiliau ar draws y sefydliad i gyflawni ein strategaeth yn effeithiol, gan barhau i gyrraedd y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd sydd ein hangen fwyaf.

Ein hymrwymiad i gynaliadwyedd

Mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud i olrhain ein hallyriadau CO2 yn golygu ein bod ni'n ymwybodol iawn o'r effaith rydyn ni'n ei chael.

Rydyn ni wedi cymryd camau sylweddol dros y 12 mis diwethaf i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys dechrau adolygiad o'n strategaeth cynaliadwyedd i wneud yn siŵr bod hyn yn dod yn hyd yn oed mwy o flaenoriaeth ar draws y sefydliad:

- Rydyn ni wedi ymrwymo adnoddau mewnol ac fel rhan o'n o'n rhaglen Sefydliad Delfrydol rydyn ni wedi creu rôl rheolwr cynaliadwyedd sy'n gweithio i gydnabod ein nodau ar unwaith ac yn y tymor hir.
- Rydyn ni'n gweithio ochr yn ochr ag un o'n partneriaid, Turner & Townsend, sy'n ein cefnogi gydag argymhellion i wella ein prosesau presennol a gwreiddio cynaliadwyedd yn fwy hyblyg ar draws y sefydliad.
- Rydyn ni'n adolygu ein cynnig fflyd presennol, gyda chynlluniau eraill yn cael eu hymchwilio i optimeiddio defnydd presennol y sefydliad o allyriadau, ac i reoli'r cynnydd mewn teithio a chymudo, fel y dangosir yn yr allyriadau a gofnodwyd yn 2022/23.
- Rydyn ni'n gweithio gyda gwasanaethau ac adeiladau i ddeall ein defnydd o nwy, trydan a dŵr er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i reoli'r effaith mae hyn yn ei chael, gan wneud yn siŵr ein bod yn dal i ddarparu ar gyfer anghenion ein gwasanaethau a'n staff.
- Rydyn ni'n adolygu cyflenwyr allanol, gan wneud yn siŵr ein bod yn mynd ati'n rhagweithiol i wirio eu manylion adnabod a sicrhau nad yw adnoddau'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd.

Math o ynni	2023/24		2022/23	
	Defnydd	Allyriadau (tCO ₂ e)	Defnydd	Allyriadau (tCO ₂ e)
Nwy (kWh)	6,889,873	1,262	10,217,808	1,871
Trydan(kWh)	5,511,746	1,170	3,429,786	728
Fflyd (litrau)	80,169	195	105,262	262
Cyfanswm allyriadau		2,627		2,861
Allyriadau wedi'u gwrthbwysu gan wastraff ailgylchu		645		628
Allyriadau net		1,982		2,234

- Mae gennym staff mewnol, profiadol Rhwydwaith Gweithredu Gwyrdd. Maen nhw'n gweithio gyda'r sefydliad ehangach ar faterion maen nhw'n eu nodi drwy rannu diweddariadau a thueddiadau i gadw cynaliadwyedd ar yr agenda, gan ein helpu i gyflawni ein nodau ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflawni gostyngiad o 11% yn ein hallyriadau net, yn bennaf oherwydd newid strategol yn ein cyflenwr nwy a thrydan. Mae'r newid hwn wedi ein galluogi i gael gafael ar wybodaeth fwy effeithlon am filiau, sydd wedi hwyluso gwell rheolaeth ar ynni a llai o ddata defnydd cyffredinol. Ar ben hynny, rydym wedi symleiddio ein portffolio eiddo, sydd wedi cyfrannu ymhellach at y gostyngiad yn ein defnydd o nwy a thrydan.

Rydym hefyd wedi gweld gostyngiad yn y defnydd o gerbydau (fflyd), sydd wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o leihau ein hallyriadau cyffredinol. Drwy weithredu arferion rheoli fflyd mwy effeithlon, rydym wedi lleihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau.

Mae'r ymdrechion cyfun hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i gynaliadwyedd a'n dull rhagweithiol o leihau ein hól troed carbon, a fydd yn cael ei adlewyrchu ymhellach yn y misoedd nesaf wrth i ni ddechrau cyflwyno cerbydau hybrid yn lle ein cerbydau fflyd presennol.

Wrth symud ymlaen, rydym yn gobeithio sicrhau'r canlynol erbyn 2024/25:

- Rhoi gwelliannau ar waith i arferion cynaliadwy, gyda pholisi cynaliadwyedd wedi'i ddiweddarau'n llawn, cyflwyno strategaeth cynaliadwyedd a nodau sefydliad cyfan sydd wedi'u diffinio'n glir.
- Datblygu llwyfan addysg ar gynaliadwyedd ar gyfer yr holl staff a rhanddeiliaid mewnol er mwyn codi ymwybyddiaeth, cynyddu dulliau ymgysylltu a chreu effaith gadarnhaol.
- Llunio meini prawf a darparu fframwaith ar gyfer gweithio'n gynaliadwy i wneud yn siŵr ein bod yn gwbl dryloyw ar y daith hon. Rydyn ni hefyd eisiau sefydlu ymgysylltiad llawn â rhanddeiliaid – yn fewnol ac yn allanol – i'n hymrwymyiadau a'n taith.

Ein **ffocws** ar gyfer **2024/25**

Byddwn yn parhau i gyflawni yn erbyn y saith nod yn ein strategaeth. Mae ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf yn cynnwys:



Parhau i gyflymu twf ein gwasanaethau er mwyn i ni allu helpu i gefnogi plentyndod mwy diogel a hapus. I wneud hyn, byddwn yn:

- Parhau i ddatblygu ein gwasanaethau craidd ar draws y pedair gwlad.
- Agor chwe chartref preswyl arall i blant dan berchnogaeth Gweithredu dros Blant.
- Adeiladu ar ganlyniadau Adolygiad Jay o Blant sy'n cael eu Camfanteisio'n Droseddol, gan wthio am newid polisi ac ehangu'r gwasanaethau a gynigiwn.
- Ymgorffori lleisiau plant a phobl ifanc ymhellach yn ein strwythurau llywodraethu a darparu gwasanaethau.
- Datblygu ein galluoedd digidol, gan integreiddio hyn yn well i fodelau darparu gwasanaethau ac archwilio cyfleoedd newydd.



Cyflawni prosiectau allweddol i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau posibl o'r arian rydym yn ei wario. I wneud hyn, byddwn yn:

- Gweithredu ein newidiadau i'r Sefydliad Delfrydol er mwyn sicrhau bod gennym y bobl iawn yn y lleoedd iawn i barhau i gyflawni ein strategaeth.
- Parhau i sicrhau bod ein portffolio eiddo o'r maint cywir, gan werthu eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio i aillfuddsoddi mewn cartrefi preswyl newydd i blant.
- Cwblhau rhaglenni seilwaith TG allweddol gan gynnwys gweithredu ein system Cyllid ac Adnoddau Dynol newydd.
- Datblygu strategaeth cynaliadwyedd newydd gyda thargedau mwy uchelgeisiol i leihau ein heffaith ar y blaned.



Adolygiad **ariannol**

Roedd ein gweithgarwch yn 2023/24 wedi ein helpu i sicrhau cyfanswm incwm o £155.3m (£149.8m yn 2022/23), cynnydd o £5.5m ar y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm ein gwariant, gan gynnwys prosiectau buddsoddi, hefyd yn £161.0m (£149.4m yn 2022/23), sy'n cynnydd o £11.6m ers y flwyddyn flaenorol.

Roedd y diffyg net ar gyfer y flwyddyn, cyn buddsoddiadau a symudiadau prisiau pensiynau, yn £5.7m (£0.4m yn uwch na 2022/23).

Roedd y diffyg net yn unol â'r gyllideb, ac mae'n adlewyrchu buddsoddiadau arfaethedig mewn prosiectau blaenoriaeth, yn enwedig buddsoddi mewn twf yn ein darpariaeth gwasanaethau preswyl ac mewn systemau technoleg i gyflawni arbedion effeithlonrwydd gweithredol. Roedd y sefyllfa weithredol sylfaenol ac eithrio'r buddsoddiadau hyn yn dangos gwarged gweithredu bach am y flwyddyn, gyda phwysau cost sylweddol o godiadau cyflog a chwyddiant wedi'i wrthbwysu gan dwf incwm a gostyngiadau mewn gwariant nad yw'n ymwneud â chyflog lle bo angen.

Incwm a gwariant

Yn 2023/24 roeddem wedi cynhyrchu cyfanswm incwm o £15.3m (£149.8m yn 2022/23). Rydym yn arbennig o falch o adrodd am berfformiad da ar draws yr holl feysydd cynhyrchu incwm, er gwaethaf heriau yn yr amgylchedd cyllido ehangach. Cyfanswm ein gwariant elusennol oedd £154.3m (£143.1m yn 2022/23).

Fel y rhan fwyaf o sefydliadau, gwelsom brisiau'n codi a oedd yn cynyddu ein gwariant, ond gwnaethom gymryd camau i reoli'r rhain er mwyn dod â'r flwyddyn i ben mewn sefyllfa sefydlog.

Rhoddion a chymynroddion

Bob blwyddyn, rydyn ni mor ddiolchgar am deyrngarwch a haelioni ein cefnogwyr a'n partneriaid sy'n ein helpu i greu plentyndod mwy diogel a hapus. Yn 2023/24 fe wnaethom godi £17.2m o incwm gwirfoddol o roddion a chymynroddion. O hyn, roedd £12.4m (£12.6m yn 2022/23) yn incwm anghyfyngedig ac roedd £4.8m (£6.0m yn 2022/23) wedi'i gyfyngu i raglenni penodol fel gwyliau byr i bobl anabl a phlant mewn gofal.

Roedd 2023/24 yn flwyddyn anoddach ar gyfer codi arian, yn enwedig o ran incwm cyfyngedig, gyda nifer o'n grantiau aml-flwyddyn yn dod i ben. Fodd bynnag, rydym yn dal i gael £12.4m o incwm anghyfyngedig diolch i'n rhoddwyr rheolaidd ffyddlon (£2.8m o incwm) a'r cefnogwyr a adawodd rodd i ni yn eu hewylllys (£4.2m o'i gymharu â £4.7m yn 2022/23).

Hon oedd pumed flwyddyn ein hymgyrch codi arian flaenllaw, Santa Cyfrinachol, a gododd £1.5m (£1.7m 2022/23). Hon hefyd oedd blwyddyn gyntaf ein Gala Dan y Sêr a gododd £0.15m a bwriedir i hyn ddod yn ddigwyddiad rheolaidd yn ein calendr digwyddiadau.

Cyfanswm ein gwariant codi arian oedd £6.7m (2022/23 £6.3m) gyda mwy o wariant yn sgil costau staffio uwch (hyd at £0.3m) a thwf mewn digwyddiadau (cynnydd £0.1m).

Ein hincwm cyffredinol oedd £1.1m o dan y gyllideb (-6.1%) gyda'r holl ddiffyg yn erbyn y targed incwm cyfyngedig. Llwyddodd y tîm codi arian i sicrhau cyfraniad anghyfyngedig net o £7.4m (£7.8m yn 2022/23).

Gweithgareddau elusennol

Eleni, fe wnaethom gynhyrchu £16.3m o incwm drwy ein gwasanaethau craidd: cymorth i deuluoedd, plant mewn gofal, plant anabl, ac iechyd meddwl a lles. Mae hyn yn £6.4m yn uwch ers y llynedd ac fe'i cyflawnwyd diolch i ymroddiad ac ymrwymiad ein staff a'n gwirfoddolwyr anhygoel.

- Mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoi y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- Mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y mae'n ofynnol i ni roi gwybod amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi yn eu cylch os, yn ein barn ni:

- Nad yw'r rhiant-gwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- Nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu

– Nad yw rhai o daliadau'r ymddiriedolwyr a nodir yn y gyfraith yn cael eu datgelu; neu

– Nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn fanylach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 48, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyrw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes byw oni bai fod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli.

Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Fe wnaethom nodi ac asesu'r risgiau o gamddatganiad o bwys o'r datganiadau ariannol o afreoleidd-dra, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a thrafod y rhain rhwng aelodau ein tîm archwilio. Yna, fe wnaethom ddylunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio a oedd yn ymateb i'r risgiau hynny, gan gynnwys cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r cwmni a'r grŵp elusennol yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Y cyfreithiau a'r rheoliadau y gwnaethom eu hystyried yn y cyd-destun hwn oedd Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau 2011 a Deddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, ynghyd â'r Elusennau SORP (FRS 102). Fe wnaethom asesu'r cydymffurfiaid gofynnol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio ar eitemau cysylltiedig y datganiadau ariannol.

Ar ben hynny, roeddem wedi ystyried darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai cydymffurfio â nhw fod yn hanfodol i allu'r cwmni elusennol a'r grŵp i weithredu neu i osgoi cosb sylweddol. Roeddem hefyd wedi ystyried y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y cwmni elusennol a'r grŵp ar gyfer twyll. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau'r DU oedd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a deddfwriaeth cyflogaeth.

Mae safonau archwilio'n cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol er mwyn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i ymchwilio i'r ymddiriedolwyr a dulliau eraill o reoli ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai.

Roeddem wedi nodi mai'r risg fwyaf o effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, oedd o fewn amseriad cydnabod incwm a diystyru rheolaethau gan reolwyr. Roedd ein gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys ymholiadau gan reolwyr, archwilwyr mewnol, cwnsler cyfreithiol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am eu dull eu hunain o adnabod ac asesu'r risgiau o afreoleidd-dra, profi samplau ar bostio cyfnodolion, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarnau, adolygu gohebiaeth reoleiddiol gyda'r Comisiwn Elusennau, a darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg anochel nad ydym efallai wedi dod o hyd i rai camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, os bydd y digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn cael gwared ar unrhyw achos arall o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, y lleiaf tebygol y byddai'r gweithdrefnau cyfyngedig sy'n ofynnol o dan y safonau archwilio yn ei nodi. Ar ben hynny, yn yr un modd ag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â datgelu afreoleidd-dra, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

N. Hashemi

Naziar Hashemi

Uwch-archwilydd Statudol

Ar gyfer ac ar ran

Crowe UK LLP

Archwilydd Statudol Llundain

15 Hydref 2024

Datganiadau ariannol

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol (yn cynnwys y cyfrif incwm a gwariant)

		Yr holl gronfeydd anghyfyngedig			Cronfeydd cyfyngedig		Cyfanswm cronfeydd 2024	Yr holl gronfeydd anghyfyngedig			Cronfeydd cyfyngedig		Cyfanswm cronfeydd 2023
		Cyffredinol	Eiddo dynodedig		Diben penodol	Gwaddolion		Cyffredinol	Eiddo dynodedig		Diben penodol	Gwaddolion	
	Nodiadau	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm a gwaddolion													
Incwm o roddion a chymynroddion	3	12,411	–	12,411	4,785	–	17,196	12,544	–	12,544	6,030	–	18,574
Incwm o fuddsoddiad		1,572	–	1,572	–	–	1,572	1,250	–	1,250	92	–	1,342
Incwm o weithgareddau elusennol													
Cymorth i deuluoedd		59,667	–	59,667	184	–	59,851	31,701	–	31,701	21	–	31,722
Plant mewn gofal		34,201	–	34,201	–	–	34,201	34,989	–	34,989	159	–	35,148
Plant a phobl ifanc anabl		33,416	–	33,416	71	–	33,487	26,637	–	26,637	100	–	26,737
Iechyd meddwl a llesiant		8,683	–	8,683	30	–	8,713	36,146	–	36,146	104	–	36,250
		135,967	–	135,967	285	–	136,252	129,473	–	129,473	384	–	129,857
Incwm arall													
Enillion net wrth waredu asedau sefydlog		260	–	260	–	–	260	14	–	14	–	–	14
Cyfanswm yr incwm a gwaddolion		150,210	–	150,210	5,070	–	155,280	143,281	–	143,281	6,506	–	149,787
Gwariant													
Gwariant ar godi arian	4.5	6,752	–	6,752	–	–	6,752	6,329	–	6,329	–	–	6,329
Gwariant ar weithgareddau elusennol													
Cymorth i deuluoedd		65,070	–	65,070	3,326	–	68,396	35,063	–	35,063	1,473	–	36,536
Plant mewn gofal		35,427	–	35,427	1,164	–	36,591	34,658	–	34,658	2,220	–	36,878
Plant a phobl ifanc anabl		36,855	–	36,855	360	–	37,215	29,211	–	29,211	340	–	29,551
Iechyd meddwl a llesiant		9,010	–	9,010	2,283	–	11,293	37,228	–	37,228	2,246	–	39,474
Ymgyrchu a pholisïau cyhoeddus		780	–	780	6	–	786	611	–	611	11	–	622
		147,142	–	147,142	7,139	–	154,281	136,771	–	136,771	6,290	–	143,061
Cyfanswm gwariant		153,894	–	153,894	7,139	–	161,033	143,100	–	143,100	6,290	–	149,390
Enillion/(colled) net ar fuddsoddiadau	9	1,362	–	1,362	–	–	1,362	(1,058)	–	(1,058)	–	(664)	(1,722)
(Colled)/incwm net am y flwyddyn cyn trosglwyddiadau		(2,322)	–	(2,322)	(2,069)	–	(4,391)	(877)	–	(877)	216	(664)	(1,325)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	14	(636)	11,945	11,309	(286)	(11,023)	–	(4,708)	4,708	–	–	–	–
(Colled)/incwm net am y flwyddyn cyn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill		(2,958)	11,945	8,987	(2,355)	(11,023)	(4,391)	(5,585)	4,708	(877)	216	(664)	(1,325)
Colledion cydnabyddedig eraill													
Colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn	6	(807)	–	–	–	–	(807)	(1,893)	–	(1,893)	–	–	(1,893)
Symudiadau net mewn cronfeydd		(3,765)	11,945	8,180	(2,355)	(11,023)	(5,198)	(7,478)	4,708	(2,770)	216	(664)	(3,218)
Cronfeydd a ddygwyd ymlaen	14	19,814	42,488	62,302	7,478	11,023	80,803	27,292	37,780	65,072	7,262	11,687	84,021
Cronfeydd a ddygwyd ymlaen	14	16,049	54,433	70,482	5,123	–	75,605	19,814	42,488	62,302	7,478	11,023	80,803

Datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024

		Grŵp		Elusen	
		2024	2023	2024	2023
Nodiadau		£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau sefydlog					
Asedau diriaethol	7	26,800	22,309	26,800	22,309
Asedau sefydlog anniriaethol	8	430	644	430	644
Buddsoddiadau	9	36,245	39,565	36,245	28,282
		63,475	62,518	63,475	51,235
Asedau cyfredol					
Dyledwyr	10	21,411	20,483	14,745	12,635
Adneuon rhybudd		10,528	13,734	10,528	13,269
Arian		2,351	6,632	1,847	5,875
		34,290	40,849	27,120	31,779
Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	11	(19,207)	(20,306)	(11,931)	(11,827)
Asedau cyfredol net		15,083	20,543	15,189	19,952
Cyfanswm asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol		78,558	83,061	78,664	71,187
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau	12	(2,402)	(2,258)	(2,402)	(2,258)
Asedau net ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn		76,156	80,803	76,262	68,929
Cronfa bensiwn		(551)	-	(551)	-
Asedau net gan gynnwys cronfa bensiwn wrth gefn		75,605	80,803	75,711	68,929
Cronfeydd	14				
Cronfeydd cyfyngedig					
Gwaddolion		-	11,023	-	-
Diben penodol		5,123	7,477	5,123	7,191
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig		5,123	18,500	5,123	7,191
Cronfeydd anghyfyngedig ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn		71,033	62,303	71,139	61,738
Cronfa bensiwn	6	(551)	-	(551)	-
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig gan gynnwys cronfa bensiwn wrth gefn:		70,482	62,303	70,588	61,738
Cyfanswm cronfeydd	14,15	75,605	80,803	75,711	68,929

Cymeradwywyd y cyfrifon hyn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 19 Medi 2024, a'u llofnodi ar ei ran.

Sarika Patel
Cadeirydd

Peter Curran
Ymddiriedolwr

Rhif cwmni 04764232

Datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Datganiadau llif arian cyfunol

	Grŵp	
	2024	2023
	£'000	£'000
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu (isod)	(8,702)	(7,506)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Llog a dderbyniwyd	534	155
Difidendau a dderbyniwyd	455	541
Incwm rhent o eiddo buddsoddi	583	646
Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol	260	701
Enillion wrth werthu eiddo buddsoddi	120	-
Prynu asedau sefydlog diriaethol	(5,379)	(5,965)
Enillion wrth werthu buddsoddiadau	17,721	570
Prynu buddsoddiadau	(13,079)	(510)
Arian parod net a ddarparwyd gan weithgareddau buddsoddi	1,214	(3,862)
Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn	(7,487)	(11,368)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill	20,366	31,734
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth	12,879	20,366

Cysoni gwariant net â'r all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu

	Grŵp	
	2024	2023
	£'000	£'000
(Gwariant)/incwm net am y flwyddyn (yn unol â'r datganiad gweithgareddau ariannol)	(4,391)	(1,325)
Addasiadau ar gyfer:		
Taliadau dibrisiant ac amorteiddio	1,003	695
(Enillion)/colledion net ar asedau buddsoddi	(1,362)	1,722
Incwm o fuddsoddiad	(1,572)	(1,342)
(Enillion)/colledion net o waredu asedau sefydlog diriaethol	(260)	(14)
Cost gwasanaeth a gweinyddu cyfredol pensiwn	1,294	1,458
Pensiwn – cyfraniadau cyflogwr	(1,531)	(3,351)
(Cynnydd) mewn dyledwyr	(928)	(1,876)
(Gostyngiad) mewn credydwyr	(1,099)	(3,399)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau	144	(74)
Arian net (llif arian parod allan)	(8,702)	(7,506)

Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

	2024	2023
	£'000	£'000
Arian mewn llaw	2,351	6,632
Adneuon rhybudd (llai na 3 mis)	10,528	13,734
Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	12,879	20,366

Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net

	2024	2023
	£'000	£'000
Cyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen	20,366	31,734
Llif arian	(7,487)	(11,368)
Cyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen	12,879	20,366

Nodiadau ar y datganiadau ariannol

1. Sail paratoi

Mae'r elusen yn endid budd cyhoeddus fel y'i diffinnir gan FRS 102.

Paratowyd datganiadau ariannol y grŵp a'r elusen yn unol â'r Datganiad o'r Arferion a Argymhellir: *Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon* (FRS 102) (SORP Elusennau (FRS102) a gyhoeddwyd ar 2 Hydref 2019 a'r *Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon* (FRS 102). Maen nhw hefyd yn cydymffurfio â gofynion adrodd Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 a Deddf Elusennau 2011.

Mae datganiadau ariannol y grŵp a'r elusen wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw (gweler isod), o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd drwy ailbrisio buddsoddiadau rhestredig ac eiddo buddsoddi.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r elusen wedi manteisio ar yr eithriadau a ganiateir o dan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac nid yw wedi cyflwyno ei Ddatganiad o Weithgareddau Ariannol heb ei gyfuno.

Busnes hyfyw

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes hyfyw. Mae hyn yn cael ei ystyried yn sail briodol gan yr ymddiriedolwyr yn seiliedig ar asesiad o'r rhagolygon ariannol, cronfeydd wrth gefn ac amcanestyniadau llif arian yr elusen am o leiaf 12 mis. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd wedi ystyried y risgiau ariannol posibl y gallai'r elusen eu hwynebu, a'r camau a fyddai'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau hyn pe baent yn codi.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymeradwyo cyllideb weithredu gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 (cyn buddsoddi mewn cynlluniau twf a phrosiectau seilwaith), ac wedi adolygu rhagolygon dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Mae gwaith modelu senarios wedi cael ei wneud i asesu risgiau i'r gyllideb a'r rhagolygon, gan gynnwys effeithiau sefyllfaoedd arian parod a chronfeydd wrth gefn. Mae gan y grŵp fantolen gref gyda chronfeydd anghyfyngedig ar 31 Mawrth 2024 o £71.0m (£65.2m yn 2023) gyda balansau arian sylweddol disgwyledig yn ystod y cyfnod. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon y bydd cryfder ariannol cyfredol y balansau arian parod a'r cronfeydd wrth gefn yn caniatáu i gamau cywiro amserol gael eu cymryd yn ôl yr angen er mwyn lleihau'r effaith.

Mae'r ymddiriedolwyr felly yn dal o'r farn bod gan y grŵp a'r rhiant-gwmni elusennol adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol agos, sef o leiaf 12 mis o'r dyddiad y llofnodir y cyfrifon hyn. Felly, mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw.

2. Polisiâu cyfrifyddu

Mae'r prif bolisiâu cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi datganiadau ariannol y grŵp a'r elusen wedi'u nodi isod.

Sail y cyfuno

Mae canlyniadau is-gwmnïau yn cael eu cyfuno fesul llinell, ac mae caffaeliadau yn cael eu cynnwys ar sail gwerth teg ar y dyddiad caffael. Mae'r datganiad gweithgareddau ariannol (SOFA) a'r fantolen yn cyfuno datganiadau ariannol yr elusen a'r is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr iddi – Action for Children Services Limited, Action for Children Developments Limited ac Out of School Scotland Limited. Cafodd yr elusennau cysylltiedig, National Children's Home ac Ymddiriedolaeth Nicholas Galperin, a oedd wedi cael eu trin yn flaenorol fel is-gwmnïau ac wedi'u cyfuno yng nghyfrifon y grŵp, eu cau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifo

Wrth gymhwyso polisiâu cyfrifyddu'r elusen, mae'n ofynnol i'r rheolwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau am gario symiau o asedau a rhwymedigaethau.

Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny ac mae'r amcangyfrifon, ynghyd â'u thybiaethau sylfaenol, yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon hyn yn cynnwys defnyddio adroddiadau prisio allanol ar gyfer:

- Gwerth cario eiddo buddsoddi, a bennir gan ddefnyddio adroddiadau prisio allanol.
- Cydnabod unrhyw atebolrwydd neu ased pensiwn dan FRS 102.

Mae'r dyfarniadau canlynol wedi cael eu gwneud yn y broses o gymhwyso polisiâu cyfrifo'r elusen ac sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod incwm yng nghyswllt contractau.
- Rhagdybiaethau actiwaraid pensiynau (gweler nodyn 6).
- Prisiadau eiddo buddsoddi (gweler nodyn 9).
- Darpariaeth dadfeiliadau (gweler nodyn 12).
- Darpariaeth dileu swyddi (nodyn 12).

Incwm

Mae'r holl adnoddau sy'n dod i mewn wedi cael eu cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol (SOFA) pan fo gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm, pan fo'n debygol iawn y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fo'n bosib mesur y swm gyda chywirdeb rhesymol. Mae'r hawl o ran cymynroddion pan fydd yn cael gwybod ei bod ar fin derbyn arian, neu pan fydd yn derbyn y gymynrodd – pa bynnag un yw'r cynharaf.

Mae adnoddau sy'n dod i mewn yn sgil gweithgareddau elusennol, gan gynnwys grantiau cyfalaf, yn cael eu cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol pan fyddant yn dderbyniadwy. Mae swm llawn y grantiau cyfalaf yn cael ei nodi ar y datganiad gweithgareddau ariannol pan fydd yn dderbyniadwy.

Pan dderbynnir arian parod yng nghyswllt gwaith cytundebol i'w wneud yn y flwyddyn ariannol nesaf, os oes cytundeb gan y corff cyllido, caiff hyn ei drin fel incwm gohiriedig. Pan nad oes cytundeb o'r fath, bydd yr arian yn cael ei gynnwys yn yr adran credydwy eraill.

Mae rhoddion ac anrhegion a dderbynnir mewn swyddfeydd a phrosiectau yn ystod y flwyddyn yn cael eu cofnodi ar eu gwerth gros, neu ar sail amcangyfrif o'u gwerth. Ond mae'r enillion o werthu anrhegion, a gafwyd

fel rhodd i gael eu hailwerthu, yn cael eu cynnwys ar y pris gwerthu, pan werthir hwy. Mae'r holl adnoddau eraill sy'n dod i mewn yn cael eu cofnodi fel gros o ffioedd a gwariant p'un a ydynt yn cael eu codi gan yr elusen neu ei hasiantau, ac eithrio ar gyfer digwyddiadau bach i godi arian, nad ydynt dan reolaeth uniongyrchol Gweithredu dros Blant, lle mae arian yn cael ei ad-dalu a'i gofnodi heb gynnwys treuliau uniongyrchol.

Nid oes unrhyw symiau wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gyfer gwasanaethau a roddir gan wirfoddolwyr.

Gwariant

Mae gwariant yn cael ei gofnodi ar sail gronnydd, ac yn cael ei gategoreiddio o dan benawdau sy'n cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Pan na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol, maent yn cael eu neilltuo i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

Mae costau cynhyrchu arian yn cynnwys costau codi arian a chyhoeddusrwydd, costau masnachu a chostau rheoli buddsoddiadau. Mae costau codi arian a chyhoeddusrwydd yn cynnwys cyflogau staff a chostau uniongyrchol ac uniongyrchol eraill, sy'n cynnwys neilltuo'n briodol gostau cefnogi canolog.

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol, gan gynnwys treuliau sy'n ymwneud ag ymgyrchu ac eiriolaeth, ynghyd â chostau hysbysu ac addysgu'r cyhoedd am y gwaith, a chostau gwasanaethau gweinyddu, rheoli a chefnogi eraill sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r gwaith yn broffesiynol ac yn gymwys. Pan fo trefniadau'n bodoli ar gyfer cyflawni gwaith gan sefydliadau partner, mae cost hyn wedi'i chynnwys yn y gweithgaredd perthnasol. Pan fydd gwasanaethau canolog yn cefnogi gwaith codi arian a gwaith elusennol uniongyrchol, bydd eu costau'n cael eu neilltuo ar sail cyfrif pennau sy'n adlewyrchu'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau hynny.

Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu'n cynrychioli cyflogau, gwariant uniongyrchol a chostau gorbenion yr adran adnoddau corfforaethol, yn ogystal â chostau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r adran adnoddau corfforaethol yn ymwneud â chydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a statudol gweithredu cwmni elusennol.

Buddion ymddeol

Mae Gweithredu dros Blant yn cyfrannu at amrywiaeth o drefniadau pensiwn ar ran ei staff. Daw'r rhan fwyaf o'r buddion o Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant, sy'n cynnwys nifer o adrannau, gan gynnwys elfennau buddion wedi'u diffinio a chyfraniadau wedi'u diffinio.

Mae costau darparu pensiynau â buddion wedi'u diffinio yn cael eu trin yn unol ag FRS 102. Mae'r elfennau canlynol yn cael eu nodi yn y datganiad gweithgareddau ariannol: cost gwasanaeth darpariaeth bensiwn sy'n ymwneud â'r cyfnod, ynghyd â chostau unrhyw fuddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth blaenorol (yn cael eu neilltuo i gostau staff); cost cyllido'r pensiwn, sydd yr un fath â'r cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol, llai credyd sy'n gyfystyr ag enillion disgwylidiedig hirdymor y gronfa bensiwn ar asedau; a'r enillion neu'r colledion actiwaraid ar asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn (yn cael eu neilltuo i enillion a cholledion cydnabyddedig eraill). Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth marchnadol asedau'r Gronfa Bensiwn a gwerth presennol rhwymedigaethau cronedig y pensiwn yn ymddangos fel ased neu rwymedigaeth ar y fantolen, ac eithrio nad yw ased yn cael ei gydnabod ond pan mai dim ond yr Elusen sydd â'r hawl i bennu'r defnydd o'r gwargard o asedau dros rhwymedigaethau.

Mae costau pensiwn ar gyfer rhan cyfraniadau wedi'u diffinio y gronfa yn cael eu harwystlo i'r cyfrifon ar sail gronnus yn y cyfnod pan fyddant yn codi.

Mae Gweithredu dros Blant hefyd yn cyfrannu at gynlluniau pensiwn athrawon, llywodraeth leol a'r GIG, yng nghyswllt nifer o'i weithwyr. Mae'r holl gostau hynny wedi'u cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol ar sail gronnus wrth iddynt godi.

Prydlesi

Mae rhenti dan brydlesi gweithredol yn cael eu harwystlo i'r datganiad gweithgareddau ariannol dros gyfnod y brydles ar sail llinell syth.

Treth Ar Werth (TAW)

Gan fod rhai o weithgareddau Gweithredu dros Blant yn cael eu categorio'n weithgareddau sydd ddim yn ymwneud â busnes neu'n weithgareddau wedi'u heithrio at ddibenion TAW, ni all Gweithredu dros Blant hawlio'n ôl yr holl Dreth ar Werth mae'n ei thalu ar gostau gweithredu. Felly mae'r gwariant a nodir yn y datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Dreth ar Werth a dalwyd ac nad oes modd ei hawlio'n ôl.

Cronfeydd

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio fel y gwêl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dda er mwyn hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen.

Mae rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig wedi cael eu dynodi at ddibenion penodol gan y Bwrdd fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad Blyneddol yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Mae'r Bwrdd yn adolygu lefelau'r cronfeydd dynodedig yn achlysurol er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i gyflawni'r dibenion y cawsant eu sefydlu ar eu cyfer, a bod unrhyw warged neu ddiffyg yn cael ei drosglwyddo i neu o gronfeydd cyffredinol.

Y gronfa gwerth teg wrth gefn yw'r swm y mae gwerth teg buddsoddiadau yn fwy na'u cost hanesyddol (ac eithrio'r cronfeydd gwaddol).

Mae cronfeydd cyfyngedig yn gronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr, neu sydd wedi cael eu codi gan yr elusen at ddibenion penodol. Mae'r gost o weinyddu'r cronfeydd hynny'n cael ei harwystlo yn erbyn y gronfa benodol.

Mae cronfeydd gwaddol bellach wedi'u dynodi i'w defnyddio ar gyfer rhaglen twf preswyl yr elusen.

Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau diriaethol yn cael eu cofnodi ar sail eu cost neu, mewn achosion pan fydd Gweithredu dros Blant wedi cael asedau diriaethol yn rhodd neu drwy broses uno, ar sail prisiad y farchnad agored pan wnaed y rhodd neu'r broses uno. Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol, a'u dibrisio ar ôl i'r gwaith ymarferol gael ei gwblhau. Y trothwy ar gyfer cyfalafu yw £1,000.

Caiff dibrisiant ei nodi ar y sail ganlynol: Yn achos adeiladau rhydd-ddaliadol mae costau caffael adeiladau, ynghyd ag unrhyw gostau addasu sy'n ychwanegu gwerth at yr eiddo, yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio dros yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir ar gyfer yr eiddo. Ni ddarperir dibrisiant ar gyfer tir rhydd-ddaliadol.

At ddibenion dibrisiant, mae adeiladau â lesddaliad o 999 o flynyddoedd yn cael eu trin fel petaent yn adeiladau rhydd-ddaliadol. Fel arfer, bydd gwariant cyfalaf ar adeiladau lesddaliadol eraill yn cael ei ystyried yn gost dibrisiant, ac felly'n cael ei ddiddymu dros yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir (gweler isod).

Mae asedau diriaethol eraill yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol, a amcangyfrifir fel a ganlyn:

Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu	Dim dibrisiant
Adeiladau rhydd-ddaliadol	50 mlynedd
Tir ac adeiladau ar les	10 mlynedd neu gyfnod y les os yw'n llai
Offer	4 mlynedd
Meddalwedd cyfrifiadurol	4 mlynedd
Meddalwedd cyfrifiadurol (pwysig)	5 mlynedd
Dodrefn a ffitiadau	5 mlynedd
Cerbydau modur	4-6 mlynedd

Pan ystyrir bod oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau unigol yn llai na'r cyfnodau hyn, defnyddir cyfnodau byrrach.

Os oes ffactorau sy'n dangos bod amhariad i werth cario asedau sefydlog yn bosibl, cynhelir adolygiad o amhariad ac os gwelir bod gwerth cario asedau sefydlog yn sylweddol uwch na'u swm adferadwy, cânt eu hysgrifennu i lawr yn unol â hynny. Byddai'r swm adferadwy fel arfer yn cael ei bennu drwy gyfeirio at adroddiad prisio allanol, a byddai unrhyw golled yn cael ei chynabod yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol (SOFA) am y flwyddyn.

Asedau sefydlog anniriaethol

Mae asedau sefydlog anniriaethol yn cael eu nodi ar y fantolen ar sail eu cost, llai dibrisiant sydd wedi cronni ac unrhyw golledion yn sgil amhariadau.

Mae cost prynu brandiau yn cael ei chyfalafu fel ased sefydlog anniriaethol, a'i hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o saith mlynedd.

Mae ewyllys da wrth gaffael busnes yn cael ei gyfalafu fel ased sefydlog anniriaethol, a'i amorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o saith mlynedd.

Gwneir adolygiadau amhariad pan fydd digwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu achos posib o amhariad. Os gwelir bod gwerth cario unrhyw ased yn uwch o lawer na'i fudd i gynhyrchu refeniw yn y dyfodol, caiff ei ysgrifennu i lawr yn unol â hynny.

Buddsoddiadau

Mae gan Gweithredu dros Blant fuddsoddiadau er mwyn cynhyrchu incwm i gefnogi gweithgareddau elusennol dros gyfnod hir, a darparu asedau i fodloni anghenion cronfeydd wrth gefn a nodwyd yn y polisi cronfeydd wrth gefn. Mae buddsoddiadau'n cael eu datgan ar sail prisiau diweddaraf y farchnad ar ddyddiad y fantolen, oni bai fod tystiolaeth o werth teg gwahanol.

Caiff eiddo buddsoddi ei gofnodi'n wreiddiol ar swm y gost ac wedyn ei ailbrisio ar ddiwedd pob blwyddyn ar sail ei werth teg.

Mae enillion neu golledion yn ystod y flwyddyn yn cael eu datgelu yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol yn yr adran enillion a cholledion cydnabyddedig eraill yn ystod y flwyddyn, ac yn nodyn 9.

Arian parod cyfatebol

Mae arian parod cyfatebol yn cael ei gynrychioli gan falansau arian a gedwir am gyfnod byr.

Dyledwyr

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod yn swm y setliad. Mae rhagdaliadau'n cael eu prisio ar sail y swm a ragdalwyd, ar ôl tynnu unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

Credydwyr a darpariaethau

Mae credydwyr a darpariaethau'n cael eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth sy'n deillio o ddigwyddiad blaenorol a fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a phan fydd modd mesur neu amcangyfrifo'n ddibynadwy y swm sy'n ddyledus er mwyn setlo'r rhwymedigaeth. Fel arfer, mae credydwyr a darpariaethau'n cael eu cydnabod yn symiau'r setliad, ar ôl ystyried unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

Llif arian parod

Mae'r elusen yn bodloni'r diffiniad o endid cymwys dan FRS 102 ac felly mae wedi manteisio ar yr eithriad datgelu yng nghyswllt cyflwyno datganiad llif arian mewn perthynas â'i ddatganiadau ariannol ar wahân, a gyflwynir ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol cyfunol.

Grantiau'r Llywodraeth

Caiff grantiau'r Llywodraeth eu cydnabod ar sail croniadau, pan fo sicrwydd rhesymol y bydd yr elusen yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant ac y bydd y grant yn cael ei dderbyn.

Cydnabod incwm a gwariant o Feithrinfeidd a Chlybiau y tu allan i'r Ysgol

Mae incwm o'r gweithgareddau hyn yn cael ei wneud yn bennaf drwy endidau Action for Children Developments Limited a Out of School Scotland Limited. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd ag amcanion elusennol yr endid rhiant ac mae'r incwm a'r gwariant o'r gweithgareddau hyn yn cael eu neilltuo o dan 'gweithgareddau elusennol' yn yr is-gategori 'cymorth i deuluoedd'.

3. Incwm a gwaddolion

Mae adnoddau sy’n dod i mewn yn sgil gweithgareddau elusennol yn cael eu dadansoddi ar draws prif weithgareddau Gweithredu dros Blant ar flaen y datganiad o weithgareddau ariannol. Mae’r incwm hwn yn deillio’n bennaf o waith gydag awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau iechyd a ffynonellau llywodraeth ganolog, gan ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd.

Rhoddion a chymynroddion	Grŵp	
	2024	2023
	£’000	£’000
Rhoddion	12,957	13,934
Cymynroddion	4,239	4,640
	17,196	18,574

Dyma’r derbyniadau pwrpas penodol sydd wedi’u cynnwys uchod: £4,785,000 o roddion (2023: £6,030,000).

Roedd rhoddion gan ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn £3,900 (2023: £2,975).

Amcangyfrifwyd bod cymynroddion y rhoddwyd gwybod amdanynt ond na chawsant eu cronni ar 31 Mawrth 2024, oherwydd tebygolrwydd neu nad oedd meini prawf mesuradwy yn cael eu bodloni, yn £0.86m (2023: £0.88m).

Incwm elusennol

Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn i’r elusen oedd £139,004,000 (2023: £134,227,000). Y diffyg net ar gyfer yr elusen oedd (£5,130,000) (2023: diffyg (£2,893,000)).

Mae taliadau Rhodd Cymorth a dderbyniwyd wedi’u cynnwys dan Rhoddion. Mae’r ffioedd rheoli a ddaeth i law wedi’u cynnwys o dan incwm o weithgareddau elusennol yn natganiad yr elusen o weithgareddau ariannol.

Is-gwmnïau ac elusennau cysylltiedig

Mae Action for Children Services Limited, Action for Children Trading Limited ac Action for Children Developments Limited yn is-gwmnïau masnachu sydd ym mherchnogaeth lwyr Action for Children, yr elusen. Maen nhw’n ymwneud â darparu gwasanaethau lles ac addysgol ar ran yr elusen, codi arian a gweithgareddau masnachol yn y drefn honno. Mae’r holl elw’n mynd i’r elusen ar sail Rhodd Cymorth. Mae Out of School Scotland Limited yn darparu gwasanaethau sy’n ymwneud â chlybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast a chlybiau gwyliau.

Roedd y National Children’s Home (NCH) ac Ymddiriedolaeth Nicholas Galperin yn elusennau cysylltiedig oedd yn rhannu ymddiriedolwyr a rheolwyr cyffredin ac a ddaeth i ben ym mlwyddyn ariannol 2023/24.

Mae crynodeb o ganlyniadau’r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 i’w weld isod:

	Is-gwmnïau masnachu			Elusennau cysylltiedig			
	Gwasan-aethau	OSCARS	Datblygiadau	NCH	Nicholas Galperin	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£’000	£’000	£’000	£’000	£’000	£’000	£’000
Trosiant	69,629	1,826	14,800	–	–	86,256	82,640
Cost gwerthiannau	(67,892)	(1,609)	(12,363)	–	–	(81,864)	(78,309)
Elw gros	1,737	217	2,437	–	–	4,392	4,331
Gweithgareddau elusennol	–	–	–	–	–	–	(117)
Costau gweinyddu	(24)	(139)	(2,506)	–	–	(2,669)	(218)
Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau arferol cyn buddsoddi incwm	1,713	78	(69)	–	–	1,722	2,152
Incwm o fuddsoddiad	–	–	–	–	–	–	311
(Colledion)/enillion net ar asedau buddsoddi	–	–	–	–	–	–	(665)
Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau arferol cyn treth	1,713	78	(69)	–	–	1,722	1,798
Treth ar weithgareddau arferol	–	–	–	–	–	–	–
Enillion wrth gefn wedi’u dwyn ymlaen	–	–	(37)	–	–	(37)	12,087
Rhoddion dan Rodd Cymorth	(1,713)	(78)	–	–	–	(1,791)	(2,007)
Enillion wrth gefn wedi’u cario ymlaen	–	–	(106)	–	–	(106)	11,878

3. Incwm a gwaddolion (parhad)

Mae asedau net yr is-gwmnïau a’r elusennau cysylltiedig wedi cael eu nodi isod:

	Is-gwmnïau masnachu			*Elusennau cysylltiedig			
	Gwasan-aethau	OSCARS	Datblygiadau	NCH	Nicholas Galperin	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau sefydlog	–	–	–	–	–	–	11,283
Asedau cyfredol	9,348	838	1,066	–	–	11,252	14,394
Credydwy	(9,348)	(838)	(1,172)	–	–	(11,358)	(13,799)
Asedau net	–	–	(106)	–	–	(106)	11,878

*Caewyd elusennau cysylltiedig NCH a Nicholas Galperin yn ystod y flwyddyn.

Incwm o fuddsoddiad

	Grŵp	
	2024	2023
	£'000	£'000
Cronfeydd y Bwrdd Cyllid Canolog (CBF) – y DU	395	480
Cronfeydd CBF – tramor	60	61
Incwm llog	534	155
Incwm o warannau	989	696
Incwm rhent o eiddo buddsoddi	583	646
	1,572	1,342

4. Gwariant

	2024			2023		
	Costau union-gyrchol	Costau cefnogi	Cyfanswm	Costau union-gyrchol	Costau cefnogi	Cyfanswm
Grŵp	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant ar godi arian						
Rhoddion	5,917	400	6,317	5,492	532	6,024
Cymynroddion	334	12	346	237	16	253
	6,251	412	6,663	5,729	548	6,277
Costau rheoli buddsoddiadau	89	-	89	52	-	52
	6,340	412	6,752	5,781	548	6,329
Gwariant ar weithgareddau elusennol						
Cymorth i deuluoedd	59,831	8,565	68,396	31,638	4,898	36,536
Plant mewn gofal	33,696	2,895	36,591	34,005	2,873	36,878
Plant a phobl ifanc anabl	31,771	5,444	37,215	25,205	4,346	29,551
Iechyd meddwl a llesiant	10,139	1,154	11,293	35,573	3,901	39,474
Ymgyrchu a pholisïau cyhoeddus	739	47	786	581	41	622
	136,176	18,105	154,281	127,002	16,059	143,061
Cyfanswm gwariant	142,516	18,517	161,033	132,783	16,607	149,390

Polisi'r elusen yw dyrannu costau cefnogi gwahanol swyddogaethau i'r gweithgareddau uchod ar sail costau'r gweithgareddau hynny. Mae costau cymorth fesul categori yn cynnwys technoleg £8.6m, eiddo £3.2m, cyllid £2.7m, strategaeth £0.7m, Adnoddau Dynol £1.1m, arall £2.4m. Amlinellir manylion y costau llywodraethu yn nes ymlaen yn y nodyn hwn.

Costau ymddiriedolwyr

7 Cafodd treuliau teithio eu had-dalu i ymddiriedolwyr, cyfanswm o £1,194 (2023: 3 yn derbyn £1,235).

Prynodd yr elusen yswiriant ar gyfer ymddiriedolwyr a swyddogion yn ystod y flwyddyn i'w hindemnio rhag rhwymedigaethau posibl a wynebwyd ganddynt mewn perthynas â'u dyletswyddau.

Nid oes gan ymddiriedolwyr hawl i gael taliadau cydnabyddiaeth, ac ni chawsant daliadau.

	2024	2023
	£'000	£'000
Ffioedd taladwy i archwilwyr Gweithredu dros Blant		
O ran yr archwiliad o'r elusen	116	85
O ran archwiliadau o ymddiriedolaethau cysylltiedig ac is-gwmnïau	29	26
	145	111
O ran tystysgrifau ar gyfer partneriaid prosiectau	-	-
O ran cyngor ar dreth a materion eraill	-	-
	145	111
Treth Ar Werth (TAW)		
Fel y nodir yn y polisi cyfrifyddu, ni all Gweithredu dros Blant hawlio'n ôl yr holl Dreth ar Werth mae'n ei thalu wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn, roedd cost y dreth ar werth nad oedd modd ei hadennill yn dod i:	2,222	2,301
Rhentu o dan brydlesi gweithredol		
Cyfarpar a pheirianwaith	7	6
Tir ac adeiladau	1,996	2,224
	2,003	2,230
Dibrisiant	1,003	695
Costau llywodraethu		
Costau staff	553	506
Ffioedd archwilio mewnol ac allanol	247	221
Ffioedd cyfreithiol	151	75
Costau eraill	35	70
	986	872

5. Enillion gweithwyr

Roedd costau staff yn cynnwys:	2024	2023
	£'000	£'000
Cyflogau	95,342	90,929
Costau dileu swyddi	640	67
Taliadau terfynu	–	–
Costau staff dros dro	3,992	2,767
Costau nawdd cymdeithasol	8,412	7,784
Ardoll prentisiaethau	450	426
Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant – cost gwasanaeth cyfredol, buddion wedi'u diffinio	–	–
Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant – cost cyfraniadau wedi'u diffinio	4,331	4,048
Cyfraniadau at Gronfa Bensiwn y GIG, Cynllun Pensiwn Athrawon a Chynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol	510	559
	113,677	106,580

Mae'r costau dileu swydd yn cynnwys £249,577 (£0 yn 2023) o daliadau dileu swydd ex gratia, a wnaed yn unol â pholisi dileu swydd Gweithredu dros Blant. Gwneir taliadau o'r fath yn ôl disgrisiwn yr uwch reolwyr, ac nid ydynt yn rhan o gontractau.

Ar wahân i Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant, mae'r elusen yn cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau â buddion wedi'u diffinio – o ran cyfrifyddu, mae'r rheini'n cael eu trin yr un fath â chynlluniau â chyfraniadau wedi'u diffinio.

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon a Chronfa Bensiwn y GIG yn gynlluniau heb eu hariannu. Mae rhwymedigaethau yn ogystal â chyfraniadau parhaus yn gallu codi gydag achosion o ddileu swydd neu ymddeol yn gynnar. Ond mae'r risg honno'n cael ei rheoli gan yr elusen, a gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaeth lawn os bydd hynny'n digwydd.

Mae gan yr elusen hefyd statws corff derbyniedig mewn gwahanol Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, a allai achosi risg i'r elusen. Mae Gweithredu dros Blant yn sicrhau bod risgiau posib sydd y tu hwnt i reolaeth yr elusen yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r awdurdod lleol perthnasol yn unol â chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009 - Admitted body status provisions in the Local Government Pension Scheme when services are transferred from a local authority or other scheme employer - a'r awdurdod lleol sy'n ysgwyddo'r risgiau o ran enillion ar fuddsoddiad, cyfradd ddisgownt, newidiadau rheoleiddio, chwyddiant, marwolaeth a risgiau actiwaraid.

Dyma oedd nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn:	2024	2023
	No.	No.
Codi arian	157	151
Gweithgareddau elusennol	4,044	4,061
Gwasanaethau cymorth	231	217
	4,432	4,429
Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn ar ddiwedd y flwyddyn	3,407	3,128

Dyma nifer y staff yr oedd eu henillion yn perthyn i bob un o'r bandiau canlynol:	2024	2023
£60,001 i £70,000	35	27
£70,001 i £80,000	24	19
£80,001 i £90,000	8	4
£90,001 i £100,000	5	3
£100,001 i £110,000	2	–
£110,001 i £120,000	3	2
£120,001 i £130,000	1	1
£130,001 i £140,000	–	1
£150,001 i £160,000	–	1
£160,001 i £170,000	1	–

O blith y staff sydd wedi'u rhestru uchod, roedd 76 yn cronni buddion o dan adran cyfraniadau wedi'u diffinio Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant (54 yn 2023). Swm y cyfraniadau a dalwyd i'r cynllun mewn perthynas â'r staff hyn oedd £351,150 (2023 £242,692).

Mae cyfanswm yr enillion a dalwyd yn 2023/24, a chyflogau blynyddol presennol staff rheoli allweddol, wedi'i nodi isod. Yn y bandiau uchod – ac mae'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y fan honno hefyd – y diffiniad gofynnol o enillion yw cyfanswm cyflog gros yn ogystal ag unrhyw fuddion o fath arall. Mae'r dadansoddiad isod hefyd yn cynnwys pensiwn cyflogwr a chyfraniadau yswiriant gwladol a thaliadau terfynu.

Cyfanswm cost staff rheoli allweddol oedd £1,091,168 (£875,659 yn 2023).

6. Pensiynau

Mae Gweithredu dros Blant yn darparu buddion pensiwn yn bennaf drwy Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant. Mae asedau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu dal mewn cronfa ar wahân sy'n cael ei gweinyddu gan ymddiriedolwyr.

Mae'r staff presennol yn aelodau o adran cyfraniadau wedi'u diffinio y Gronfa Bensiwn, ac mae gweithwyr newydd yn cael eu cofrestru'n awtomatig i'r adran honno.

Hyd at 30 Ebrill 2010, roedd gweithwyr yn cael buddion drwy nifer o adrannau buddion wedi'u diffinio, a chynllun hybrid a oedd yn cyfuno cyfartaledd enillion dros oes gyrfa wedi'u hailbrisio a threfniadau cyfraniadau wedi'u diffinio. Yn dilyn adolygiad o'r buddion ac ymgynghoriad ag aelodau'r Gronfa Bensiwn, staff Gweithredu dros Blant ac Undebau, cafodd holl adrannau'r Gronfa Bensiwn eu cau ar 1 Mai 2010 – gydag un eithriad – ar gyfer staff newydd a staff presennol. Mae staff sy'n symud i Gweithredu dros Blant o dan drefniadau TUPE Bergen Deg yn gymwys i ymuno ag adran buddion wedi'u diffinio y Gronfa Bensiwn, sy'n debyg i gynllun pensiwn llywodraeth leol. Cafodd adran newydd ar gyfer cyfraniadau wedi'u diffinio ei chreu ar gyfer yr holl staff eraill.

Dyma aelodaeth y Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2024:	2024	2023
Aelodau gweithredol – adran buddion wedi'u diffinio	–	–
Aelodau gweithredol – adran cyfraniadau wedi'u diffinio	3,003	2,990
	3,003	2,990
Aelodau gohiriedig	9,781	9,467
Aelodau sy'n bensiynwyr	3,080	2,978
	15,864	15,435

Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd unrhyw aelodau gweithredol yn dal i gronni buddion o dan yr adran buddion wedi'u diffinio.

Mae'r cyfraniadau ar gyfer yr adran cyfraniadau wedi'u diffinio yn amrywio yn unol â'r cyfraddau cyfatebol canlynol:

Gweithiwr	3%	4%	5%	6%	7%	uwch na 7%
Cyflogwr	5%	5%	5%	6%	7%	7%

At hynny, mae Gweithredu dros Blant yn talu cyfraniad o 2% i'r adran buddion wedi'u diffinio dros yr holl aelodau gweithredol ar gyfer achosion o farwolaeth yn y swydd, ac er mwyn talu costau gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr at adran buddion wedi'u diffinio Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant am y flwyddyn oedd £1,531,000 (2023: £3,319,000).

Mae Deddfwriaeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau pensiwn gael eu hariannu'n ddarbodus.

Cafodd y prisiad ariannu tair blynedd diwethaf y cytunwyd arno o'r gronfa ei gynnal gan actiwari cymwys ar 31 Mawrth 2021, ac mae'n dangos diffyg o £60.2m, (ar sail targed cynaliadwy'r ymddiriedolwyr).

Mae'r cynllun adfer diffyg, a dderbyniwyd gan y Rheolydd Pensiynau, yn seiliedig ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu a'i rhannu'n rheolaidd rhwng y cyflogwr a'r Gronfa Bensiwn. Mae Gweithredu dros Blant wedi talu cyfraniadau diffyg o £1.0m ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024.

Mae'r cyfraniadau lleihau'r diffyg yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau busnes yr elusen, ac yn yr asesiad o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen.

Ar ben hynny, mae arwystl er budd y Gronfa Bensiwn dros asedau penodol sy'n eiddo i Gweithredu dros Blant petai'n methu talu.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys cytundeb y bydd hyd at 50% o'r elw o werthu'r eiddo sy'n eiddo i'r elusen yn cael ei dalu i'r Gronfa Bensiwn os na chaiff yr arian ei fuddsoddi gan yr elusen o fewn cyfnod y cytunir arno.

Er bod y broses o setlo rhwymedigaethau pensiwn yn un hirdymor, wrth ledaenu'r costau dros nifer o flynyddoedd, mae lefel y cyllid yn gyfnewidiol. Ciplun ar un diwrnod yw prisiadau, ac maent yn sensitif i newidiadau o ran ffactorau'r farchnad ariannol. Mae'r actiwari AON yn rhoi adroddiad rheolaidd ar sefyllfa cyllid y Gronfa Bensiwn, ac mae'r Gronfa Bensiwn a'r elusen yn monitro hyn yn ofalus.

Caiff cronfeydd pensiwn eu prisio mewn gwahanol ffyrdd at wahanol ddibenion. Mae'r prisiad tair blynedd a nodir uchod yn cael ei wneud gan actiwariau AON y cynllun i sefydlu lefel ariannu briodol. Mae'n defnyddio rhagdybiaethau ariannol penodol sy'n wahanol i'r rhagdybiaethau y mae'n rhaid eu defnyddio o dan brisiad y Safon Adrodd Ariannol, FRS 102 a nodwyd isod, a gynhelir er mwyn gwneud datgeliadau cyfrifyddu. Mae'r prisiad FRS yn defnyddio rhagdybiaethau cyfradd ddisgownt/llog uwch a chwyddiant is na'r prisiad a gynhelir bob tair blynedd, ac mae'r ddau wahaniaeth hyn yn arwain at gyfrifiad is o ran rhwymedigaethau pensiwn.

Mae'r sefyllfa FRS102 a nodir isod yn cynnwys gwarged o £0.5m, gyda lefel y cyllid ychydig is na 100%. Defnyddir y prisiad parhaus wrth gytuno ar lefelau cyfraniadau a'r cynllun adfer. Er bod symudiadau ym mhrisiad FRS102 yn ymddangos yn y datganiad gweithgareddau ariannol, ac yn bwydo drwodd i gyfanswm y fantolen, nid ydynt yn newid lefel y gronfa gyffredinol.

Y gronfa gyffredinol sy'n cael ei chysylltu'n uniongyrchol â'r polisi cronfeydd wrth gefn, a'r gronfa honno sy'n bwysig wrth asesu gallu'r elusen i reoli ei gweithrediadau yn y dyfodol. Mae'r cyfraniadau at y diffyg yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau busnes yr elusen, ac yn yr asesiad o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen.

